

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Chwefror 2013

Rhif 430

50c

Rhodd Hael i Gronfa Eleanor



O'r chwith: Joe Hughes, Gwilym Jones, Linda Brown, Mark Hodgkinson, Berwyn Williams, Ann Williams, Neil Roberts, Nia Williams.

MAE Cronfa Apêl Eleanor Jones o Fethesda £500 yn elwch diolch i'r cwmni sy'n berchen ar Chwarel y Penrhyn, sef "Welsh Slate".

Mae'r cwmni am ddathlu'r ffaith na fu unrhyw ddamwain sylweddol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf trwy gefnogi elusen leol.

Mae'r cwmni wedi rhoi'r arian i'r ardal y mae'n rhan ohoni a bydd y rhodd yn mynd tuag at brynu matres arbennig a ffaniau a fydd yn gwneud bywydau cleifion yn Ward Alaw Ysbyty Gwynedd yn fwy cysurus.

Dewiswyd Cronfa Apêl Eleanor Jones gan bwyllgor Iechyd a Diogelwch Chwarel y Penrhyn fel y diweddaraf i fanteisio ar ymgyrch iechyd a diogelwch y cwmni.

Gan na fu unrhyw ddamwain yn y ddau chwarter diwethaf manteisiodd Adran Oncoleg Ysbyty Glan Clwyd ar arian gan y cwmni a derbyniodd John Campbell, cyn-weithiwr yn y chwarel ac sy'n gwella ar ôl cael niwed difrifol i'w ben, fantais o'r gronfa hefyd.

Dechreuwyd Cronfa Apêl Eleanor Jones gan Eleanor ei hun wedi iddi ddioddef o ganser a pharlyswyd hi'n rhannol tra roedd hi'n derbyn triniaeth am myeloma ar asgwrn ei chefn.

Mae Eleanor bellach mewn cadair olwyn ac mae'n gorfod ymweld ag Ysbyty Gwynedd ddwywaith yr wythnos am driniaeth cemotherapi a ffisiotherapi.

Yn dilyn ei thriniaeth treuliodd Eleanor amser yng Nglan Clwyd lle mae'r staff yn defnyddio matresi chwyddadwy i symud cleifion o un lle i'r llall mewn dull haws a mwy effeithiol. Dyma'r pethau mae hi am godi arian ar eu cyfer yn Ysbyty Gwynedd.

Meddai Ysgifennydd y gronfa, "Hoffwn ddiolch i bwyllgor iechyd a diogelwch Chwarel y Penrhyn am eu rhodd garedig. Bydd yr offer o gymorth mawr i gleifion ac i staff yr ysbyty".

Ysgol Dyffryn Ogwen yn "rhagorol" Mwy ar dudalen 20

Côr y Penrhyn
(BETHESDA)
yn cyflwyno

Rhys Meirion
a
Gwendllian Jones

Capel Jeriwsalem
Bethesda

Nos Sul
24 Chwefror 2013
am 7 yr hwyr

Tocynnau - £6.00
ar gael o siop Kath, Bethesda
gan aelodau'r côr
neu wrth y drws

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts ☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn ☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts ☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn ☎ 600274
dewision@btinternet.com

Fiona Cadwaladr Owen ☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees ☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan ☎ 602440
dewimorgan@fsmail.net

Trystan Pritchard ☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter W Williams ☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

SWYDDOGION

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@fsmail.net

Trefnydd Hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.com

Y Llais Drwy'r Post:
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Derfel Roberts.

Golygydd mis Mawrth fydd Ieuan Wyn,
Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda
LL57 3SG (01248 600297)
cylch@tiscali.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher,
27 Chwefror, os gwelwch yn dda. Plygu
nos Iau, 14 Mawrth yng Nghanolfan
Cefnfaes am 6.45.

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar gasét bob mis,
cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Mis Chwefror

- 16 Bore Coffi NSPCC. Neuadd Ogwen.
10.00 – 12.00.
- 22 Cyfarfod Blynnyddol Plaid Cymru Dyffryn
Ogwen gyda Leanne Wood. Cefnfaes am
7.00
- 23 Bore Coffi Plaid Cymru.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 24 Cyngerdd Blynnyddol Côr Meibion y
Penrhyn. Capel Jerusalem.
- 27 Cangen Plaid Lafur Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.30.
- 28 Merched y Wawr Bethesda.
Dathlu Gŵyl Ddewi. Cefnfaes am 7.00
- 28 Pesda Roc yn cyflwyno COLORAMA
yn Neuadd Ogwen.

Mis Mawrth

- 02 Bore Coffi Ymchwil Cancr.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 04 Merched y Wawr Tregarth. Dathlu Gŵyl
Ddewi gyda'r Boncathod.
Festri Shiloh am 7.00
- 08 Noson gyda CELT.
Clwb Criced a Bowlïo Bethesda.
- 09 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 07 Theatr Bara Caws yn cyflwyno Hwyliau'n
Codi yn Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen.
- 09 Marchnad Cynnyrch Lleol. Ystafell Fawr
Capel Jerusalem. 10.00 – 2.00.
- 12 NSPCC Adran Bethesda. Cyfarfod
Blynnyddol . Canolfan Cefnfaes am 2.00
- 13 Cymdeithas Lenyddol Gofalaeth Bro
Dyffryn Ogwen. Ysgol Llanllechid am
6.30.
- 14 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 7.00
- 15 Pesda Roc yn cyflwyno GAI TOMS yn
Neuadd Ogwen.
- 16 Bore Coffi Neuadd Talgai.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 23 Bore Coffi Ysgol Glanaethwy.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 24 Cymanfa Ganu Sul y Blodau.
Capel Bethlehem Talybont am 7.30.
- 28 Merched y Wawr Bethesda. Sgwrs gan
Dafydd Cadwaladr. Cefnfaes am 7.00

Hysbysebwrch eich gweithgareddau yn y Llais Ffoniwch Neville Hughes ar 600853



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

Rhoddion i'r Llais

- £ 5.00 Er cof am Debbie Burnell oddi
wrth ei mam, Megan
- £10.00 Er cof annwyl am Brian Parry,
45 Abercaseg, Bethesda, gan Joan
a'r teulu.
- £ 8.00 Don Hughes, Ripponden, Halifax
- £10.00 Gwyneth Morris, Gwaen Gwiall,
Gerlan.
- £ 4.50 Vernon ac Iris Davies, Rachub.
- £50.00 Er cof am Jean Elaine Morris,
32 Ffordd Tanybwllch, Rachub,
oddi wrth y teulu.
- £ 5.00 Derek a Norma Griffiths,
46 Abercaseg, Bethesda.
- £10.00 Mrs Eirlys Jones, 4 Braichmelyn.
- £ 4.50 Mrs B Cavanagh,
25 Maes y Garnedd, Bethesda.
- £ 9.50 Y Teulu Speddy, 6 Pantglas,
Bethesda
- 20.00 Er cof am Mrs Morfudd Jones,
oddi wrth y teulu

Diolch yn Fawr

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mis Chwefror	
£30	(64) Mrs. Rita Bullock Maes y Garnedd, Bethesda.
£20	(152) Mrs Jean Ogwen Jones, Ystad Coetmor, Bethesda.
£10	(117) Mrs. Gwenda Bowen, Stryd Hir, Gerlan.
£5	(77) Miss J B Williams, Porthaethwy.

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

£18 Gwledydd Prydain
£27 Ewrop
£36 Gweddill y Byd

Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
☎ 01248 600184

**Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan**

Cysodwyd gan **Tasg**,
50 Stryd Fawr Bethesda,
LL57 3AN ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Nid yw bwyllgor Llais Ogwan na'r
panel golygyddol o angenrheidrwydd
yn cytuno â phob barn a fynegir gan
ein cyfranwyr.

Bethesda

Llên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ **600431**

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☐ ☎ **601592**

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☐☎ **601902**

Ysbyty
Bu sawl un yn yr ysbyty yn ystod mis Ionawr, a da deall fod rhai wedi dychwelyd gartref erbyn hyn. Cofion a dymuniadau am wellhad buan atoch, ac at y rhai sy’n sâl gartref:
Mr Bert Hughes, Stryd John;
Mrs Phyllis Roberts, Adwy’r Nant;
Mr John Roberts, Arafa Don;
Mr Tudor Roberts, Abercaseg;
Miss Glenys Lloyd Jones, Rhes Gordon;
Mr Bill Lloyd Williams, Ffordd Bangor;
Mr Terry Williams, Pant Glas;
Mr Percy Parry, Erw Las;
Mrs Eirian Pritchard, Rhes Elfed.

Damwain
Cafodd dwy o’r pentref ddamwain yn ddiweddar a gorfod derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Cofion cynnes iawn atoch eich dwy, sef Mrs Irene Hughes, Glanffrydlas a Mrs Phyllis Evans, Erw Las.

Gorffwysfan
Pwyllgoe Bore Llun, 25 Chwefror am 11.00 o’r gloch.
Cofion at yr aeloday sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar, sef Mr Eric Jones ein Cadeirydd, Mrs Christine Jones, Mrs Alice Jones, Mr Jim Amos a Mr a Mrs Tom Morgan. Gwellhad buan i chi i gyd.

Cydymdeimlo
Amfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar, sef:-
Mr a Mrs Vernon Thomas a Sara – colli nain a hen nain ym Mraichmelyn, sef y ddiweddar Mrs Gladys Jones.
Mr a Mrs Now Jones a’r tueulu, Erw Las. Janet wedi colli brawd ym Meffgelert.
Mr a Mrs Tom Morgan a’r teulu, wedi colli chwaer Tom.

Marwolaeth
Ar 4 Ionawr, yn sydyn yn ei gartref, 4 Abercaseg, bu farw **Mr David Royston Morgan** yn 57 oed, brawd annwyl i Lenard, Neville, Violet a Kevin ac ewythr hoffus. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Gwener, 11 Ionawr gyda gwasanaeth yn Eglwys Crist, Glanogwen a mynwent Eglwys Coetmor. Gwasanaethwyd gan y

Parchedig John Matthews. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth o golli Royston.

Ym Mhlas Ogwen ar ddydd Sadwrn, 5 Ionawr, bu farw **Mrs Morfudd Jones** (Morgan gynt) o 1 Maesygarnedd, yn 83 oed. Priod y diweddar Mr Stan Jones, mam a mam yng nghyfraith i Carys a Phil, Janice a Barry, a nain annwyl i Ffion, Llinos, Alys, Joel a Darren. Roedd yn chwaer i Tom a Vera, Hefin a Rosemary ac yn fodryb hoffus. Roedd yn berson hoffus iawn ac yn barod ei sgwrs bob mser. Anti Mo oedd hi i bawb ac roedd yn falch o hynny. Cynhaliwyd ei hangladd fore dydd Llun, 14 Ionawr, gyda gwasanaeth yn amlosgfa Bangor dan arweiniad ei gweinidog, y Parchedig Geraint S R Hughes. Darllenwyd dwy deyrnged iddi gan y gweinidog, un gan yr wyrion a’r llall gan Mr Gilbert Bowen. Mr Wyn Williams oedd wrth yr organ. Cydymdeimwn â chi Carys, Janice a’r teulu i gyd, ar golli mam, nain a chwaer annwyl.

Ar 17 Ionawr, yn Sligo, yn yr Iwerddon, bu farw **Mrs Carol Mary Williams** yn 57 oed, priod annwyl y Parchedig Arfon Williams (cyn ficer Eglwys Glanogwen) a mam hoffus i Ceri, Ruth a’r ddiweddar Helen. Roedd yn ferch a chwaer annwyl a charedig. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Eglwys Gadeiriol Sligo ac amlosgfa Belfast ddydd Llun, 21 Ionawr, ac yna cafwyd gwasanaeth i gofio am fywyd Carol yn Eglwys Crist, Glanogwen dan arweiniad y Parchedig Trefor Evans a’r Parchedig John Matthews lle cafwyd teyrnged i Carol gan ei ohriod. Mrs Christine Evans oedd wrth yr organ. Wedi’r gwasanaeth claddwyd ei llwch ym mynwent Eglwys Coetmor. Cydymdeimlwn a chi fel teulu yn eich profedigaeth.

Yn Ysbyty ©wynedd ar 18 Ionawr, bu farw **Mrs Marjorie Morris**, 2 Arafa Don, yn 68 oed. Priod Mr Dewi Morris a mam a mam yng nghyfraith Shirley a Phil, Sandra a Dave, Michael a Nerys. Nain Kelly, Caryl, Claire, Nerys, Colin, Keith a Sophie. Hen-nain annwyl i Kieran, Cameron, Chelsey, Hayden, Christine, Ann, Brian, Owen Glyn a Margaret.

Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Gwener 25 Ionawr, gyda gwasanaeth yn Eglwys Crist, Glanogwen ac Amlosgfa Bangor, gyda’r Parchedig John Matthews yn gwasanaethu. Claddwyd ei llwch ym mynwent Coetmor. Cydymdeimlwn â chwi Dewi a’r teulu i gyd, o golli Marjorie.

Gair o Ddiolch
Dymuna Carys, Janice a theulu y ddiweddar Morfudd Jones (Anti Mo) ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd tuag atynt yn eu colled enfawr o golli mam, nain a

chwaer hynod annwyl a charedig. Diolch am y swm anrhydeddus o arian er cof sydd wedi ei rannu rhwng ysbyty Alder Hey, Lerpwl, ac NSPCC Cymru. Diolch i’r Parchedig Geraint Hughes am wasanaeth yn unol â dymuniaad Mam ac i’r gynulleidfa niferus am yr holl ganu. Diolch i Gareth Williams am ei drefniadau tawel a pharchus. Hoffem hefyd ddiolch i’r gofalwyr ac i Blas Ogwen am eu gofal diflino a’u caredigrwydd. Bydd colled fawr ar ei hôl.

Profedigaeth
Yn dawel ym Mhlas Garnedd, Pentraeth ar 19 Ionawr bu farw **Mr J. Kenneth Hughes**, Swm y Nant, yn 87 oed. Priod annwyl y ddiweddar Mrs Vera Wyn Hughes, tad a thad yng nghyfraith Richard a Sim, Alison ac Alwyn, Nicola a Dave, Fiona a Dafydd, a thaid hoffus Iwan a Fflur, Kathryn, Lucie, Gwenllian, Iestyn a Swyn. Roedd yn aelod o Eglwys Crist, Glanogwen ac yn weithgar gyda’r Llang Prydeinig. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Gwener, 25 Ionawr, i’r teulu yn unig, gyda’r Parchedig John Matthews yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chi fel teulu i gyd yn eich hiraeth am dad a thaid annwyl.

Yn sydyn yn ei gartref, 1 Rhes Penrhyn, ar 24 Ionawr, bu farw **Mr Brian Venmore Thomas** yn 69 oed. Priod Mrs Helen Thomas, tad y diweddar Mark, Michael ac Osian, a brawd Eric a’r diweddar Beryl. Cynhaliwyd gwasanaeth yn amlosgfa Bangor ddydd Iau, 31 Ionawr. Cydymdeimlwn â chwi, Mrs Thomas, a’r teulu i gyd.

Diolch
Fe hoffai Dennis a Janet Hughes o Ystad Coetmor, ddiolch o waelod calon i bawb a helpodd fam Dennis, sef Irene Hughes o 11 Glanffrydlas, pan gafodd hi ddamwain ar y pafin o flaen Tai Glanogwen gyferbyn â’r Douglas Arms yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i ferch o’r enw Barbara a ffoniodd am ambiwlans a gofalu ein bod ni’n dau yn cael y neges, a hefyd i nyrs o’r enw Frances a roddodd driniaeth a gofal iddi tra’n disgwyl am yr ambiwlans, a heb anghofio’r person a fu mor garedig â rhoi cadair a blanced iddi. Mae hi’n gwella’n araf, ond bydd cryn amser cyn y daw’n ôl i lawn iechyd.

Diolch
Yn dilyn ei brofedigaeth derbyniodd Selwyn Owen, 12, Ffordd Ffrydlas ddau lythyr o werthfawrogiad, y naill gan Gymdeithas Alzheimers a’r llall gan Ymchwil Canser. Fe gasglwyd £674.50 yr un i’r elusennau hyn yn angladd ei wraig,Brenda a fu’n dioddef yn enbyd o’r ddau glefyd yma. Mae copi o’r ddau lythyr i’w gweld yng nghynteddau’r Eglwys Unedig. Unwaith eto, dymuna Mr Owen ddioch o galon i bawb am eu haelioni.

Llyfr Newydd

Llongyfarchiadau i Fiona Cadwaladr Owen ar gael cyhoeddi ei phwederydd llyfr i blant sef, Byd Moi Misho (dan yr enw Fiona Wynn Hughes). Yn ôl y son, mae'r bechgyn sydd yr un dosbarth â Iestyn wrth eu boddau yn darllen am helyntion y bachgen direidus.

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Sul Cyntaf bob mis - “Llanast yn y Llan” (Gweler isod) – 11.00am

Ail a thrydydd Sul bob mis - Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am

Pedwerydd Sul bob mis - Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am

Pumed Sul - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Phentir (Lleoliad i’w gyhoeddi)

Ni chynhelir y Gwasanaeth Cymun am 8.00am ar y Sul ar hyn o bryd.

Bob bore Dydd Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaid

Croeso cynnes i bawb i’r gwasanaethau uchod.

Llanast yn y Llan - Na nid llanast go iawn!! Rhyw fath o wasanaeth teuluol anffurfiol. Dewisir thema ar gyfer y gwasanaeth ac mae cyfle i brofi gweithgareddau ymarferol a chreu arddangosfa. Cyfle i blant ac oedolion gael hwyl wrth addoli. Ar ddiwedd y gwasanaeth trefnir lluniaeth i bawb. Dewch draw ar Sul cyntaf y mis i weld beth sy’n mynd ymlaen.

Arch Noa - Clwb bach yw hwn ar gyfer plant bach cyn oed ysgol. Mae’n cyfarfod yn Ysgol Abercaseg bob bore Dydd Llun am 9.15am.

CAPEL BETHANIA

3 Mawrth:
Mr Dafydd Thomas (5.30)

17 Mawrth
Y Parchedig Gwynfor Williams (5.30)

Croeso Cynnes i Bawb

Yr Eglwys Unedig
Gweinidog: Y Parchedig Geraint Hughes

Bu mis cyntaf y flwyddyn yn ddigon oer a gaeafol a bu llawer yn cwyno gan annwyd, y ffliw a heintiau eraill. Rydym yn falch o weld rhai o gwmpas bellach ac anfonwn gofion at y rhai sy'n dioddef adref, mewn cartref henoed neu'r ysbyty. Gobeithio ar waethaf rhybuddion o ragor o dywydd garw y bydd pawb yn dal i wella. Cydymdeimlwn gyda Tom a Vera Morgan ar farwolaeth Morfudd, chwaer Tom. Bu Morfudd yn berson ymroddgar mewn mwy nag un capel ac eglwys ac roedd yn berson hwyliog dros ben ond ers tro byd bellach roedd wedi colli ei hiechyd a'i hasbri. Cydymdeimlwn hefyd gyda'r merched a'u teuluoedd a gyda Hefin, ei brawd arall, sy'n byw yn Seland Newydd ers blynnyddoedd. Cydymdeimlwn hefyd gyda Megan Phillips a Dafydd ei mab. Bu farw chwaer yng nghyfraith Megan yn ystod y dyddiau diwethaf.

Bore Sul, Ionawr 6 cynhaliwyd bedydd Elain, merch fach Dr Meic Hughes a Dr Nia Hughes. Dymunwn yn dda i'r teulu wrth iddynt symud eu haelodaeth i Seilo, Caernarfon lle maent wedi cartrefu bellach.

Nos Fawrth, Ionawr 8 cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dechrau'r flwyddyn o dan ofal Rhiannon Evans gyda chynorthwy Olwen Williams, Minnie Lewis a Ceri Dart. Y cyfeilydd oedd Eileen Evans ac mae'n werth nodi bod pob un o'r merched yma wedi bod yn weinyddesau ond wedi ymdeol bellach.

Nos Iau, Ionawr 11 cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwirydd o dan lywyddiaeth Rhiannon Evans, yr is-lywydd. Estynnodd groeso cynnes i Arthur Rowlands, cyn-flaenor yn yr eglwys ond sydd bellach wedi symud i ardal y Bala i fyw. Cafwyd noson hyfryd yn ei gwmni a hanes ei wyliau yng ngwlad yr Iesu.

Nos Fercher, Ionawr 16 o dan lywyddiaeth y Gweinidog, cafwyd noson hwyliog pan roedd nifer o'r aelodau yn sôn am eu hoff bethau.

Pan oedd y tywydd yn caniatáu, fe gynhaliwyd seiadau ar nos Fawrth a Llenwi'r Cwpan ar fore Iau. Croeso i bawb i bob cyfarfod a gynhelir yma.

GWASANAETHAU'R SUL

Chwefror
17 Parch. Cledwyn Williams
24 Y GWEINIDOG
Mawrth
03 Y GWEINIDOG (10.00)
Parch Robert Capon (5.00)
10 Y GWEINIDOG
17 Parch. Reuben Roberts

Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Merched y Wawr, Cangen Bethesda

Y Fns. Elina Owen gyda'r Fns. Gwenno Evans yn cyfeilio. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Megan, Medi, Dilys ac Eirwen (Griffiths). Pleser oedd gweld fod Elinor (Holland) wedi gallu ymuno â ni ar ôl triniaeth a gobeithiwn y bydd yn parhau i wella. Mynegodd y Llywydd ein bod yn teimlo chwithdod o golli Brenda o'n plith a hithau wedi bod yn aelod ffyddlon ac yn barod bob amser i droi ei llaw at wahanol weithgareddau.

Pleser hefyd oedd croesawu tair dysgwraig atom sef, Linda, Sue a Catherine. Ar hyn o bryd mae Catherine yn paratoi ar gyfer sefyll arholiad Lefel A yn y Gymraeg.

Ar ran Is-Bwyllgor Anabl Rhanbarth Arfon, bydd Elena, Jennie a Pat yn cymryd rhan mewn distawrwydd nodedig o ddwy awr i godi arian at CLIC, sef elusen cancr i blant. Mae Pat eisoes wedi casglu £80 at yr elusen.

Estynnwyd croeso twymgalon i'r Bnr. Andre Lomozik a ddaeth atom fel gŵr gwadd ar fyr rybudd. Cawson noson ddiddorol yn edrych ar gasgliad o luniau o 'Fethesda a'r Cylch' yn dyddio o 1992 i'r presennol. Syndod oedd sylweddoli cymaint o siopau sydd wedi cau, cymaint o newidiadau sydd wedi digwydd mewn oddeutu 30 mlynedd, a chynifer o gymeriadau'r ardal sydd wedi ein gadael. Maith iawn fuasai nodi pob un yn unigol, ond un enghraifft drawiadol oedd gweld Capel y Tabernacl ar dân yn 1998, a'r fflamau cochion yn esgyn i fyny mor ffyrnig.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Andre gan ein Llywydd a chafodd gymeradwyaeth haeddiannol gan yr aelodau.

Rhoddwyd y wob'r lwcus gan Jennie a'r enillydd oedd Muriel. Wedi paned a sgwrs daeth y cyfarfod i ben.

Mynydd
Llandygái

Theta Owen.
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygai.
☎ 600744

Ysbyty
Nid yw Mrs Margaret Williams Tan y Bwlch wedi bod yn rhy dda, ond erbyn hyn daeth gartref o'r ysbyty. Dymuniadau gorau.

Genedigaeth
Ganwyd merch fach gyntaf y flwyddyn newydd i William Naylor a Leia. Croeso mawr i Willow, chwaer fach i Ruby a Toby a wyres fach i Peter a Lindsey. llongyfarchiadau i chi.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Jean Williams Tan-y-bryn ar ddod yn nain am y bedwaredd tro. Wyres arall! Ganwyd Alys Joyce yn Stockport ar 11 Ionawr. Merch fach i Dylan a'i wraig Melanie. llongyfarchiadau iddyn nhw.

Genedigaeth
Llongyfarchiadu i Linda Davies ar enedigaeth merch fach, Llïo, yn chwaer i Leia, Lauren a Lois. Wyres i Elwyn a Jackie. Pob hapusrwydd i'r teulu.

Brysiwch Wella
Mae llawer yn sâl yn y pentref a dymunwn adferiad buan i chi i gyd.

Y Neuadd
Bydd gweithgareddau yn ail ddechrau yn y Neuadd Goffa y mis hwn. Cofiwch am y Pantomein! Dewch yn llw!

Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

Chwefror	Mawrth
17: 9.45 Boreol Weddi	03: 9.45 Gwasanaeth Teuluol
24: 9.45 Cymun Bendigaid	10: 9.45 Sul y Fam - Cymun Teuluol
	17: 9.45 Boreol Weddi

Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno a ni yn ein gwasanaeth ar gyfer Sul y Fam.

Ein dymuniadau gorau i bawb sy'n sâl ar hyn o bryd, anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Os oes unrhyw un yn dymuno derbyn Cymun yn eu cartref, neu unrhyw wasanaeth arall, cysylltwch â'r Curad, Y Barchedig Jenny Hood (605 017) neu Mr. Peter Price (601 199) neu Mrs. Janet Williams (600 434) wardeiniad yr eglwys.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon, Rachub
LL57 3LW
☎ 601880

Dathlu yn ei Hen Fro

Y mis diwethaf, daeth gŵr sydd â'i wreiddiau yn Llanllechid yn ôl i'w hen gynefin i ddathlu ei ben-blwydd yn gant oed. Roedd Ffrangcon Evans (brawd i'r diweddar Goronwy Evans, Llwyn Onn, Allt Penybryn, Bethesda) wedi trefnu i aros am bythefnos yn yr Hen Weithdy yn sgwâr Llan, o fewn tafliad carreg i'r tŷ lle ganwyd o yn 1913.

Cafwyd parti arbennig ym mwyty'r Split Willow yn Llanfairfechan ar Ionawr 19eg pan ddaeth nifer fawr o berthnasau a chyfeillion ynghyd i'w longyfarch a chyd-lawenhau mewn gwledd i nodi'r achlysur arbennig. Bu Ffrangcon, a'i ddiweddar wraig, Gwyneth, yn byw ar stad Gorwel yn Llanfairfechan cyn iddo symud i fyw mewn fflat y drws nesaf i'w fab a'i ferch yng nghyfraith yn Stoke St Gregory heb fod ymhell o Taunton yng Ngwlad yr Haf. Cafodd Ffrangcon ddathliad yno ar Ionawr 6ed, ddydd ei ben-blwydd.

Cafodd Ffrangcon ei eni yn Nhanybryn yn Llanllechid, a symudodd y teulu bach i hen gartref ei dad, Bryn Eithin, gerllaw pan fu farw ei daid. Wedi cwblhau ei hyfforddiant yn y coleg yn Lerpwl, bu'n arolygydd iechyd a thirfesurydd efo cynghorau lleol yn Wrecsam a Swydd Efrog ar y cychwyn, ac yna ym Meirionnydd, Môn ac Arfon.

Mae Ffrangcon yn brysur efo'i gyfrifiadur ac mae o wedi llunio cart achau dwy ochr ei deulu, Bryn Eithin a Gwaun-y-gwail. Mae o'n cael pleser yn darllen ac ysgrifennu, ac ychydig flynyddoedd yn ôl daeth i roi sgwrs i Gymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen ar Lanllechid yng nghyfnod ei fagwraeth. Roedd o'n un o aelodau cyntaf yr Urdd yn 1922, ac yn dilyn cofnodi hanes cynnar Adran Llanllechid yn Y Faner Newydd yn ddiweddar, derbyniodd lythyr arbennig gan Gyfarwyddwr y mudiad. Ar hyn o bryd, ymhlith llu o bethau eraill, mae o'n ysgrifennu erthygl ar ddulliau amaethu adeg ei blentyndod ar gyfer Fferm a Thyddyn. Mae'n hyfryd cael ei longyfarch ar gyrraedd carreg filltir nodedig.



Deio o Fethesda a'i gefnder Now o Rostryan yn mwynhau'r parti yng nghwmni Ffrangcon, eu hen, hen ewythr.

CAPEL BETHEL (B) Gwasanaethau

Chwefror
17 Y Parchedig Dewi Morris
24 Y Parchedig John Pritchard

Mawrth
03 Y Parchedig Huw Pritchard
10 Y Gweinidog
17 Mr Alun Wyn Rowlands
24 Ms Nerys Griffiths

Oedfaon an 2.00 o'r gloch
Croeso Cynnes i Bawb

CAPEL CARMEL Gwasanaethau

Chwefror
17 Y Parch. J L Jones 5.00
24 Y Parch. W R William 2.00

Mawrth
03 Y Gweinidog 2.00 a 5.00
10 Y Parch G Williams 2.00
17 Y Gweinidog 2.00 a 5.00

Yr Ysgol Sul 10.30 y bore
Dwylo prysur, nos Wener 6.30.
Croeso Cynnes i Bawb

Cylch Meithrin Llanllechid



Dyma blant bach Cylch Meithrin Llanllechid yn cychwyn ar eu taith i Blas Ffrancon.

Capel Carmel - Yr Ysgol Sul



Dyma lun rhai o blant yr Ysgol Sul a fu'n casglu arian tuag at C.W.M., sef y Genhadaeth Fyd Eang. Rhwng y cardiau casglu a chasgliad gwasanaeth y plant a'r bobol ifanc casglwyd swm anrhydeddus o bron i ddau gant o bunnoedd.

Bedydd
'Pnawn Sul, 27 Ionawr bedyddiwyd Lois, Merch Ann Marie ac Eilir Jones, Fferm Llwyn Penddu gan y Parch Geraint Hughes. Mae Lois a'i chwaer, Efa yn ffyddlon iawn yn yr ysgol sul drwy'r flwyddyn.

Gwellhad Buan
Anfonwn ein cofion at nifer sydd wedi derbyn triniaeth mewn ysbytai yn ddiweddar, Mrs Thomas, Fflat Capel Salem a Martha Evans, Mignaint.

Cydymdeimlad
Ar 7 Ionawr ym Mhlas Ogwen bu farw Mrs Bruna Williams, Maes Bleddyn yn 85 mlwydd oed. Anfonwn ein cydymdeimlad at Ann a Chesella a'r teulu oll yn yn eu profedigaeth. Bu'r gwasanaeth angladdol yn yr Amlosgfa, Bangor ar 14 Ionawr. Er yn hanu o'r Eidal, 'roedd wedi hen wreiddio yn Rachub ers priodi a'i diweddar wr, Meirion. Cymeriad hynaws llawn bywyd oedd Mrs Williams bob amser yn barod ei sgwrs a'i gwên. Bwlch arall i ardal Rachub.

Carmel Llanllechid
Te Bach
Pmawn Llun
18 Chwefror 2.30 tan 4.00
Croeso Cynnes i Bawb

Diolch
Dymuna Kevin, Rhian, Siân a'u teuluoedd ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn eu profedigaeth o golli mam, mam yng nghyfraith a'n ain annwyl. Diolch yn arbennig i gymdogion a ffrindiau am bob cymorth, a hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof amdani.

Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Adref o'r ysbyty

Braf yw gweld fod Alun Ogwen Thomas, Ffordd Gerlan, wedi dod adref ar ôl cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Rydym i gyd yn cofio atat, ac yn dymuno gwellad llwyr a buan iti, Alun.

Croeso

Rydym yn croesawu Heather a Peter i'w cartref newydd yn Stryd y Ffynnon. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Profedigaeth

Daeth newyddion trist eto am un o drigolion y Gerlan, pan glywyd am farwolaeth y ddiweddar Morfudd Jones, Maes y Garnedd, ond gynt o Stryd Hir. Roedd Morfudd wedi byw yn y Gerlan ers yn blentyn, cyn symud i lawr i Faes y Garnedd yn ddiweddar. Rydym yn cydymdeimlo gyda Dylan Morgan, Stryd y Ffynnon, ei nai, a gyda'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlo

Rydym yn estyn ein cydymdeimlad i Shirley a Phil a'r teulu, Ciltrefnus, yn eu profedigaeth o golli mam annwyl,

sef y diweddar Marjorie Morris, Arafa Don, Bethesda. Roedd Marjorie yn ferch o'r Gerlan, ac wedi byw yma am flynyddoedd. Rydym, hefyd, yn cydymdeimlo gyda Nerys a Cara, Stryd y Ffynnon, yn eu profedigaeth o golli nain a hen nain annwyl. Bydd colled fawr ar ôl y diweddar Marjorie gan yr holl deulu.

Gwyl Gerdd Toronto

Bydd Lisa Jên a Martin Hoyland, Gwernydd, a'u band 9Bach, yn cymryd rhan mewn gŵyl gerdd fyd-eang o'r enw 'Folk Alliance' yn Toronto, Canada, ddiwedd Chwefror. 9Bach fydd yr unig fand yno fydd yn canu yn y Gymraeg. Bydd y band yn cynnal 6 cyngerdd yno i gyd. Rydym yn falch o glywed y bydd 9Bach yn rhyddhau eu halbwm newydd yn ystod y misoedd nesaf, ac rydym yn sicr fod disgwyl mawr amdano. Llongyfarchiadau ichi ar gael eich dewis i gymryd rhan yn yr ŵyl, a phob dymuniad da ichi yno, ac i'r dyfodol.

Profedigaeth

Daeth newyddion trist eto am un o drigolion y Gerlan, pan glywyd am farwolaeth y ddiweddar Morfudd Jones, Maes y Garnedd, ond gynt o Stryd Hir. Roedd Morfudd wedi byw yn y Gerlan ers yn blentyn, cyn symud i lawr i Faes y Garnedd yn ddiweddar. Rydym yn cydymdeimlo gyda Dylan Morgan, Stryd y Ffynnon, ei nai, a gyda'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Diolch

Dymuna Beryl Williams, Stryd Goronwy, a'r teulu, ddiolch o waelod calon i bawb a ddangosodd arwyddion o gydymdeimlad a charedigrwydd gyda hwy yn eu profedigaeth fawr o golli Richard Alun ychydig cyn y Nadolig. Diolch i gymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau, galwadau ffôn, a rhoddion a dderbyniasant er cof am Richard. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

Colled

Bu'r misoedd diwethaf yn rhai hynod o greulon i'r Gerlan, gan inni golli nifer o drigolion yr ardal. Ychydig cyn i'r Llais fynd i'r wasg daeth y newyddion trist am farwolaeth un arall o'r pentref, sef y ddiweddar Anita Williams, Gwernydd. Rydym yn cydymdeimlo'n fawr gyda'i phriod, Gruff Williams, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth lem o golli mam a nain annwyl.

Carneddi

Derfel Roberts,
Ffordd Carneddi, Bethesda
☎ 600965

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Carl Jones, gynt o Garneddi, a Kate ar enedigaeth eu merch, Poppy Catrin Jones, ar 14 Ionawr. Mae Carl a Kate wedi ymgartrefu yn Gosport, Swydd Hapshire.

Llongyfarchiadau hefyd i Alan a Jackie Jones, Carneddi, am fod yn nain a thaid am y tro cyntad, ac i Thomas a Heddwen Jones, Rhos y Coed am fod yn hen nain a thaid, ac wrth gws i Anti Ceri.

Gwella

Da gweld bod Eileen Roberts, 86 Ffordd Carneddi yn gwella wedi derbyn triniaeth i'w phen-glin yn ddiweddar. Pob dymuniad da iddi.

Diolch

Mae yna gymwynaswyr a chymwynaswyr, ond ychydig yw'r rhai sy'n fodlon mynd allan a chlririo stryd gyfan o eira er mwyn hwyluso trafnidiaeth i bawb, Yn absenoldeb gweithwyr y cyngor, dyna a wnaeth Conrad Davies, 78 Ffordd Carneddi yn ddiweddar a dymuna holl drigolion yr ardal ddiolch iddo am ei lafur caled.

Ymadael â Thafarn

Daeth cyfnod i ben ddiwedd Ionawr yn Nhafarn Y Sior, Carneddi pan adawodd Chris a Maureen Watson y tafarn ar ol ei rhedeg am bum mlynedd. Roedd croeso cynnes i'w gael gan y ddau bob amser a chynhaliwyd nosweithiau difyr dros ben yno. Un da oedd Chris ar fod yn gwisfeistr ac ni fyddai yr un yn cael ei gynnal heb i Maureen fod wedi trefnu lluniaeth. Byddai llawer o fudiadau, cymdeithasau a

chronfeydd apêl yn cael eu cynnal yno, megis Cylchoedd Meithrin yr ardal, Apêl Eleanor i enwi dim ond ychydig. Yr un fyddai'r croeso twymgalon a'r cymorth bob amser. Byddai'r lle dan ei sang yn ystod gêm rygbi ryngwladol gyda lobsnows blasus hanner amser a chrys rygbi i'w ennill gyda tocyn am ddim gyda'ch diod.

Nosweithiau difyr eraill a gynhaliwyd oedd nosweithiau bingo a hwyl a chan yng nghwmni Hogia'r Bonc . Diolch Maureen a Chris am y croeso bob amser. Dymunwn y gorau i chi ar eich ymddeoliad yn eich cartref newydd ym Mae Colwyn ac edrychwn ymlaen i'ch gweld yn eistedd yr ochr yma i'r bar pan fyddwch yn ymweld â Karen yng Ngharneddi

Hoffa'r ddau ddiolch o galon i bawb am eu cwsmeriaeth a'u cwmniaeth yn ystod yr amser y buont yn cadw'r Sior.

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda ☎ 600689

Diolch

Dymuna Mrs Eirlys Jones, 4 Braichmelyn ddiolch i'r Llais am y dymuniadau da ar ei phen-blwydd arbennig. Hefyd i'r perthnasau, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion ac ymweliadau a gafodd ar y diwrnod arbennig iawn.

Diolch

Dymuna Anita ac Alun Jones, Cadnant, Braichmelyn, ddiolch o galon i'r holl ofalwyr a fu'n gweini ar fam Anita, sef y ddiweddar Mrs Gladys Jones dros y blynyddoedd diwethaf. Diolch hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd boed ar ffurf ymweliadau, galwadau ffôn neu'n ysgrifenedig gan deulu, cyfeillion a chydhabod. Aeth pob cyfraniad er cof am Mrs Jones at yr elusen Carers Outreach sy'n cynrychioli ac yn gofalu am fuddiannau ofalwyr ar draws y wlad.

Gwellhad

Mae Mr Eric Jones, Cefncwlyn, yn well wedi iddo fod yn wael ers rhai wythnosau. Mae'n braf ei weld allan wedi gwella cystal. Dymuniadau gorau i chi Eric.

Rydym yn meddwl am bawb sydd wedi cael y ffliw neu'r annwyl sy'n mynd o gwmpas yr ardal hefyd. Brysiwch wella pawb!

Cofion

Rydym yn gyrru ein cofion gorau i Nita Jones, Braichmelyn, sydd wedi cael triniaeth i'w llygad yn Ysbyty Gwynedd. Cymrwch bethau'n ysgafn rwan, Nita, a gobeithiwn y byddwch yn gwella'n llwyr a buan.

Marathon Llundain



Gethin Jeffreys a Carwyn Evans

Ar Ebrill 21ain bydd dau o hogiau'r dyffryn yn rhedeg ym Marathon Llundain ac yn codi arian ar gyfer Cystic Fibrosis Trust er cof am y diweddar Gavin Bolton, Bryn Caseg. Y ddau wr ifanc ydy Carwyn Evans, Stryd Morgan, Gerlan, a Gethin Jeffreys, Braichmelyn. Eu nod yw casglu isafswm o £2500 ar gyfer yr achos da, a buasent yn falch iawn o gael trigolion yr ardal i'w noddi, neu drefnu unrhyw weithgareddau i godi'r arian. Os hoffech gyfrannu, gellir cysylltu'n uniongyrchol gyda Carwyn neu Gethin, neu gyfrannu ar y We ar y safwe www.virginmoneygiving.com/gethinjeffreys. Braf yw gweld dau wr ifanc yn barod i wneud ymdrech glodwiw fel hyn. Er mwyn codi arian trefnwyd gig gyda'r grwp Celt yn y Clwb Criced, nos Wener, 8 Mawrth, ac maent yn gobeithio cynnal ocsiwn. Dewch yn llu i gefnogi'r hogiau yn eu hymdrech!

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Gwaeledd
Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau da i’r cleifion sy’n dal i fod heb wella y gaeaf hwn: Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Jim Hughes, Dr Pam Jones, Olwen Lytham, Betty Williams a Dorothy Proudley Williams – llwyr wellhad i chi i gyd a chadwch yn gynnes yn ystod y tywydd oer yma.

Bingo
Nos Fawrth, 15 Ionawr, cynhaliwyd y Bingo cyntaf am eleni yn Neuadd Talgai, ac er mai nifer fechan oedd yn bresennol fe wnaed elw sylweddol tuag at y neuadd. Diolch am eich cefnogaeth a diolch arbennig i Pauline a Raymond.

Pen-blwydd
Llongyfarchiadau i Cai Jones, 4 Pentre Llandygái gynt, ar 22 Chwefror pan fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 19 mlwydd oed. gobeithio y cei di ddiwrnod wrth dy fodd a hwyl fawr i ti i’r dyfodol.

Llongyfarchiadau
Rhaid llongyfarch a diolch i’r Dr John Elwyn Hughes am ei gyfrol newydd ‘Rhai o Enwogion Llên Dyffryn Ogwen’. Mae’n ddiddorol dros ben i bawb, ac yn arbennig felly i ni a fagwyd yn Nyffryn Ogwen ac a gafodd y fraint o adnabod yr enwogion hyn. Tri yn unig oedd wedi marw cyn fy ngeni, sef Rhys J. Hughes, W J Parry a Benjamin Thomas, er i mi glywed amdanynt ar fy aelwyd gartref. Diolch hefyd i Neville Hughes, Dafydd Roberts, Arthur Rowlands a Ieuan Wyn am eu cyfraniad hwythau fel aelodau o’r pwyllgor.

Sefydliad y Merched, Llandygai
Ein cyfarfod cyntaf o’r flwyddyn oedd ymweliad a llyfrgell Bangor, nos Fercher, Ionawr 23.

Cafwyd nifer o ymddiheuriadau am absenoldebau. Croesawyd pawb yn gynnes gan Gwawr gyda phaned a chacen.

Rhoddodd fraslun inni o hanes y llyfrgell. Adeiladwyd hi gan Gyngor Dinas Bangor a chafwyd swm sylweddol o’r gost yn rhodd o gronfa’r dyngarwr Andrew Carnegie. Un o amodau y rhodd oedd ei bod yn llyfrgell rhydd , ar gael i bawb i’w defnyddio. Gwelir plac copor yn y cyntedd - Llyfrgell Dinas Bangor, agorwyd yn 1907.

Synnwyd yr aelodau gan ehangder y gwasanaethau sydd ar gael ynddi, ar wahan i’r llyfrau a’r deunyddiau technegol.

Wedyn cawsom grwydro o gwmpas y llyfrgell i weld y gwahanol adnoddau. Noson ddifyr iawn. Diolchwyd i Gwawr am y croeso a gawsom a’r holl wybodaeth ynglyn ar llyfrgell.

Eglwys Sant Tegai

Gwaeledd
Dymnwn wellhad buan i Mrs Joy Radcliffe sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.
Cofiw'n y mis hwn eto am ein cyfeillion sydd yn wael yn eu cartrefi: Mrs Jane Couch, Mrs Beryl Edwards, Mr Gwynne Edwards a Mr Harry Gross – rydym i gyd yn meddwl llawer amdanoch.

Gamoa Obiri
Yn Eglwys Sant Tegai ar nos Sul, 13 Ionawr, cynhaliwyd yr Hwyr ol Wedi dan arweiniad y Parchedig John Matthews. Yn dilyn y gwasanaeth yn Neuadd Talgai cafwyd sgwrs gan y Dr Einir Young, Talybont am y pentref bach, Gamoa Obiri sydd wedi ei gefeillio gydag Eglwys Sant Tegai ers sawl blwyddyn bellach. Roedd paned a bisgedi ar y diwedd wedi eu trefnu gan Nerys a Merched yr Eglwys a diolch o galon iddynt. Diolch yn fawr i Einir am y cyflwyniad rhagorol, mae’n braf cael clywed am y gwelliannau sydd ar y gweill ac mor ddiolchgar yw’r pentrefnwyr am bob cyfraniad.

Yr Offeren a Choffi
Bob bore Mercher byddwn yn cynnal gwasanaeth y cymun yn Eglwys Sant Tegai a bydd aelodau o’r tair Eglwys yn ymuno. Yn ddiweddar mae rhai o’n cyfeillion wedi bod yn wael a’r tywydd gaeafol wedi eu rhwystro rhag dod. Felly roeddem yn falch o weld Nesta Hughes a Linda Irons, y ddwy o Dregarth, wedi dod atom fore Mercher, 23 Ionawr. Rydym yn anfon ein cofion at John Morell (un o’r ffyddloniaid) sydd yn dal yn wael – brysiwch wella John. Diolch yn fawr i Muriel am edrych ar ôl pawb ar ôl y gwasanaeth efo’r coffi a’r bisgedi – maent yn dderbyniol iawn yn ystod y tywydd oer.

Diolch i’r Athro Ian Russell am gymryd gwasanaeth y Foreol Weddi ar fore Sul 27 Ionawr ac hefyd i Geraint Gill yr organydd, i Edmond a Rhian am ddarlllen, ac i Nerys am ofalu am bopeth.

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Eglwys Maes y Groes

Plygain
Cynhaliwyd gwasanaeth Plygain yn Eglwys Y Drindod ar y nos Wener cyntaf o’r mis. Roedd naw o grwpiau yn cymeryd rhan yn cynnwys un o Eglwys Maes Y Groes a balch oeddem fod ciwrat Glanogwen, y Barchedig Jenny Hood, wedi ymuno a ni i ganu. Fe ganodd Geraint Gill ein horganydd unawd hefyd ar y noson. Traddodwyd y diolchiadau gan ein Esgob, y Gwir Barchedig Andrew John. Diolch yn arbennig i Catrin Hobson, ein warden, am ei gwaith caled i drefnu’r noson lwyddiannus.

Cinio Nadolig
Ar nos Wener y cyntaf o Chwefror, cynhaliwyd ein cinio Nadolig yng ngwesty’r Victoria ym Mhorthaethwy. Balch oeddem o weld aelodau o eglwysi Tregarth a Llandegai wedi ymuno â ni i fwynhau’r noson a’r pryd blasus. Diolch i’r Parchedig John Matthews, ein ficer, am ein diddori ac i Phyllis Davies am drefnu’r noson mor drylwyr. Diolch hefyd i bawb am eu rhoddion i’r raffl. Cyflwynwyd tusw o flodau i Phyllis gan ein ficer mewn gwerthfawrogiad o’i llafur.

Yn yr Ysbyty
Anfonwn ein cofion at John Morrell sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Capel Bethlehem, Talybont

Bwrlwm
Mae’n braf medru cyhoeddi fod cyfarfodydd y “Bwrlwm” wedi ail gychwyn ers dydd Iau 23 Ionawr, gan fod y festri bellach mewn trefn yn dilyn llanast y llyfogydd. Mae croeso i bawb ymuno â ni am sgwrs dros banad bob yn ail ddydd Iau o 2.15 tan 3.45. Ar waethaf popeth mae’r Bwrlwm wedi medru rhannu £300 rhwng 5 elusen lleol.

Ysgol Sul
Wedi rhyw 2 fis o dawelwch, braf oedd clywed lleisiau 13 o blant a ddaeth i gyfarfod cyntaf yr Ysgol Sul ar 3 Chwefror. ‘Roedd yn gwbl amlwg eu bod wedi colli dod i’r Ysgol Sul ac yn falch o gael dod yn ôl!

Gwellhad
Croesawyd Mrs. Rita Hughes yn ôl i’r Capel ac i’r Bwrlwm yn ddiweddar wedi cyfnod o absenoldeb oherwydd iddi dderbyn llaw driniaeth. Gobeithiwn y bydd Mrs. Rhiannon Williams, wedi gwella’n ddigon da i ddychwelyd atom cyn bo hir!

Oedfaon
Chwefror
17 Parchg. Cledwyn Williams
24 Y Gweinidog

Mawrth
3 Parchg. Iwan Llewelyn Jones, Porthmadog
10 Y Gweinidog
17 Parchg. Reuben Roberts.

Oedfaon am 2 o’r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Diolch
Dymuna Rita Hughes, 7 Lôn Ddŵr, ddiolch i bawb am y cardiau a’r anrhegion a gafodd ar ôl bod yn Ysbyty Gwynedd.

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎352835

Lle i Ganmol
Rhaid canmol Cyngor Gwynedd am wrando ar gwynion trigolion Rhiwlas a Phentir a myned ati i gymryd camau i arafu’r ceir a’r lorïau sy’n teithio ar y ffordd fawr drwy’r ardal.

Codwyd arwyddion 50 milltir yr awr cyn cyrraedd cyffordd Lôn Bach Awyr o gyfeiriad Bethel ac

un arall wrth ddod tuag at Ryd y Groes o gyfeiriad Llandygái.

Rhoddwyd gwrymiau ar wyneb y ffordd yn ogystal. Nid oes ond gobaith y gwnaifff gyrrwyr gymryd sylw ohonynt.

Diolch i’r rhai a roddodd o’u hamser i gasglu enwau ar y ddeiseb fu o gwmpas y ddwy ardal ac i’r cynghorwyr lleol a fu’n gefnogol i’r ymgyrch.

Rhoddwyd sylw i anghenion cerddwyr yn ogystal. Gosodwyd llwybr caled o Lôn Bach Awyr hyd at Bentir a llwybr cyffelyb o Ryd y Groes i Bentir.

Merched y Wawr, Rhiwlas

Mae dau gyfarfod i’w cofnodi y mis hwn, cyfarfodydd Rhagfyr a Ionawr.

Mr Maldwyn Thomas ddaeth atom yn Rhagfyr. Testun ei sgwrs oedd ‘Merched mewn Hanes’. Gan ein bod yn dynesu at y Nadolig dechreuodd trwy gyfeirio at gân Mair (Magnificat). Yna aeth ymlaen i sôn am rai o wragedd a merched y tywysogion Cymreig. Cyfeiriodd at Elizabeth Ferrers, gwraig Dafydd ap Gruffydd a’r modd y cafodd eu plant eu trin. Bu farw dau o’r meibion yng ngharchar a threuliodd eu merched weddill eu hoes yn lleianod yn Lloegr. Cawsom hefyd stori hynod Catrin a Mary Roberts. Gorffennodd trwy ddarllen rhan o nofel Islwyn Fffowc Elis, Cysgod y Cryman.

Cafodd ei sgwrs dderbyniad gwresog. Ni ellid disgwyl llai gan fod Mr Thomas yn feisrolgar a diddrol ei gyflwyniad bob amser.

Gwnaed y te gan Einir ac Agnes. Agnes hefyd wnaeth y mins peis a barnai’r aelodau eu bod y rhai gorau iddynt eu profi erioed. Cyfeiriwyd at waeledd Ann Roberts a threfnwyd i ni anfon win cofion a’n dymuniadau gorau ati.

Un o’n haelodau fu’n gyfrifol am gyfarfod mis ionawr, sef Gwen Aaron. Mae Gwen fel y gwyddom yn hoff iawn o fyned ar deithiau cerdded, yn aml i wledydd tramor; ond hanes un o’i theithiau yn nes at adref gawsom ni y tro hwn. Yn 2008 agorwyd llwybr 60 milltir o hyd ar hyd arfordir Sir Aberteifi, a dyma’r llwybr y bu Gwen yn ei gerdded. Cychwynodd y daith yn Aberteifi, yna galw yn Aberporth, Cwm Tydi, Llangrannog a Llanrhystud, gan orffen y daith yn Aberystwyth.

Roedd yn amlwg ei bod wedi mwynhau’r profiad a chodai ei shwrs yr awydd i ddilyn ôl ei throed pe deuai’r cyfle.

Cloddio Safle Cae’r Mynydd – Ein Hen, Hen Hanes.

Yn dilyn cyfeiriad byr at ‘y Camp’ yn rhifyn Ionawr o’r Llais, bu rhai o’r darllenwyr yn holi a oedd rhagor o wybodaeth i’w gael am y safle. Yn y Cymro, 17 Tachwedd 1955 ceir yr adroddiad canlynol, sy’n hynod ddiddrol:

Oddeutu un ganrif ar bymtheg yn ôl roedd teulu neu deuluoedd – Cymry yn ôl pob tebyg – yn amaethu tir Cae’r Mynydd wrth odre Moel Rhiwen. Yr wythnos hon mae hynafiaethwyr o’r Comisiwn hen greiriau wrthi’n dadwreiddo olion yr hen ffermdy – gwaith y dechreuwyd arno yn 1949. Eisoes turiwyd digon i ddangos y bu ar y tir hwn fferm, wedi ei hamgylchynu â waliau. O fewn y waliau hyn, ar gylch o dri chan troedfedd ar draws, roedd adeiladau crynion ac un neu ddau adeilad hirsgwar. A’r tu allan i’r wal a oedd yn gylch am y cwbl roedd wal lai – hon yn ôl pob tebyg i rwystro i anifeiliaid grwydro. Yn 1949 cafwyd y bu pobl yn byw mewn un o’r adeiladau mewn tri chyfnod gwahanol. Yn agos i’r wyneb roedd llawr wedi ei balmantu. Methwyd â phennu oed hwn. O dano roedd trwch deunaw modfedd o olion y bobl a fuasai’n byw yn yr adeilad – lludw coed, darnau o lestri pridd o’r drydedd a’r bedwaredd ganrif, hoelion haearn a mainc garreg. Yn is wedyn roedd cerrig a allasai fod yn sylfaen adeilad cynharach oedd ar safle dipyn yn wahanol. Y tro hwn canfuwyd darnau o lestri pridd ac o faen melin a ddefnyddiwyd i falu yd.

Mae’r safle, sydd ar ffurf pant yn y ddaear i’w weld rhyw ddau gan llath o’r tu draw i dŷ Cae’r Mynydd ac ar y chwith i’r llwybr wrth wynebu Beran. Os am ymweld â’r safle, gwell fuasai gwneud ym misoedd y gaeaf gan fod rhedyn yn cuddio’r lle yn yr haf.

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ **601062**

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ **600192**

Damwain yn y cartref
Dylem fod wedi cyfeirio yn rhifyn Mis Ionawr o’r Llais am y ddamwain ddaeth i ran Mrs Megan Davies, Ffrwd Galed. Trist oedd clywed iddi syrthio yn ystod cyfnod y Nadolig a thorri ei dwy fraich. Mae’n dda deall ei bod yn gwella a dymunwn lwyr iachad iddi. Rydan ni’n cofio Megan yn gweithio yn y Swyddfa Bost yn Nhregarth am flynyddoedd a bob amser yn barod ei chymwynas. Brysiwch wella Megan.

Llongyfarchiadau
i Alwyn Ellis, Tal y Cae ar gael ei benodi’n Flaenor yng Nghapel Bereia Newydd

Llawdriniaeth
Mae Emyr Morris Jones, Lliwedd, Tal y Cae, wedi cael llawdriniaeth yn ysbyty Gobowen, Croesoswallt, ddechrau mis Chwefror. Brysia wella Emyr !

Profedigaeth
Mae amryw i drigolion y pentref wedi cael profedigaethau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Rydan ni’n anfon ein cydymdeimlad atoch i gyd yn eich hiraeth ar ôl anwyliaid.

Daeth profedigaeth i ran Allison ac Alwyn Ellis, Tal y Cae pan fu

farw tad Allison , sef Kenneth Hughes, Bethesda, mewn cartref ynm Mhentraeth. Cofion at Allison, Richard, Nicola, Fiona a’r holl deulu yn eich galar.

Collodd Gerallt Williams, 28 Ffordd Tanrhiw, ei fam oedd yn byw yn y Gerlan ar ddiwedd Mis Ionawr. Cofion at Gerallt, Andrea, Joshua, Hannah a’r teulu yn eich profedigaeth chwithau.

Trist oedd clywed y newyddion am farwolaeth Llion Jones, Llanfairfechan, gynt o Brynhoffnant, Sir Aberteifi, yn 83 mlwydd oed. Bu Llion yn brifathro yn Ysgol Gynradd Tregarth am nifer o flynyddoedd yn y saithdegau a chydymdeimlwn gyda’i briod Jean, ei ferched Beth a Nia, ei wŷr Robert a’i frawd Campbell.

Capel Shiloh, Tregarth

Ers rhai wythnosau bellach mae sedd Mrs Megan Davies, Ffrwd Galed, yn wag ar nos Sul yn Shiloh gan iddi syrthio a thorri ei braich yn go egar. Anfonwn ei cofion ati fel cyfeillion yn Shiloh gan ddymuno gwellhad buan iddi.

Cydymdeimlwn gyda Mrs Lilian Richardson, Ffordd Tanrhiw, yn ei phrofedigaeth ddiweddar o golli ei chwaer, sef Mrs Buddug Pleasant, Bro Syr Ifor.

Daeth profedigaeth i ran Gerallt Williams, Ffordd Tanrhiw, a’r teulu pan fu farw ei fam o’r Gerlan yn Ysbyty Gwynedd ar Ionawr 29. Mae Joshua a Hannah yn aelodau o Ysgol Sul Shiloh ac mae Gerallt ac Andrea ei briod yn barod iawn eu cymwynas bob amser yn Shiloh.

Gwasanaethau Shiloh

Ysgol Sul Shiloh
10.30 bob bore Sul
Oedfa’r Hwyr 5.00

Chwefror
17 Parchedig John Gwilym Jones, Peniel, Caerfyrddin
24 Parchedig W.R Williams, Y Felinheli

Mawrth
10 Mr R.J.H Griffiths, Bodffordd
17 Y Parchedig Harri Parri, Caernarfon
24 Oedfa Deulu am 10.30 Wyn Thomas, Bangor yn anerch
31 Mr J.O Roberts, Bethesda

Clwb 100 Canolfan Tregarth Ionawr 2013

41 Goronwy Roberts	£15
6 David Hadfield	£10
8 Gomer Davies	£ 5

Merched y Wawr, Tregarth

Richard Lloyd Jones, Bethel, oedd y gŵr gwâdd yng nghyfarfod Mis Ionawr o Gangen Tregarth o Ferched y Wawr yn Festri Capel Shiloh, Nos Lun, Ionawr 7. Cyn athro Mathemateg yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy yw Richard ac yn un sydd wedi bod a diddordeb mawr am flynyddoedd mewn chwaraeon yn ogystal, ac yn arbennig mewn criced. Ond ni ddaeth i’r gangen i sôn am ei waith fel mathemategydd nac mewn chwaraeon ond yn hytrach am ei ddiddordeb yn y byd llenyddol a barddonol.

Mae wedi ennill peth wmbredd o gystadlaethau mewn Eisteddfodau lleol a chenedlaethol am sgwennu straeon byrion, atgofion, englynion a phenillion di-ri. Mae wedi argraffu nifer o bamffledi yn cynnwys ei waith llenyddol a chawsom ei glywed yn darllen rhai ohonynt yn ystod y noson. Mae’n amlwg ei fod yn berson prysur, er iddo ymddeol o’i waith fel athro rhai blynyddoedd yn ôl.

Diolchwyd iddo am noson ddiddorol dros ben ac am ei atgofion o fod yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Llandygai ac Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda. Roedd yn hyfryd gweld y Festri yn Shiloh yn llawn ar gyfer y noson hwyliog a difyr yma. Diolchwyd i Richard am ddod i’r gangen ar fyr rybudd.

Paratowyd y baned gan Iona Rhys, Jên Margiad a Gwenda Davies. Bydd y gangen yn cyfarfod nesa Nos Lun, Chwefror 4 ac yna ym Mis Mawrth ar Fawrth 4 pan fyddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni y Boncathod.

Glasinfryn Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasinfryn,
Bangor LL57 4UP
01248 351067
Marred567@btinternet.com

Sefydliad y Merched
Cynhaliwyd cyfarfod cynta’r flwyddyn 2013 ar nos Fercher 9fed o Ionawr dan lywyddiaeth Mrs Sarah Flynn. Croesawyd yr aelodau a diolchwyd i Mair am ei gwaith diflino yn trefnu’r holl weithgareddau yn ystod 2012. Llongyfarchwyd Mrs Muriel Pritchard ar ddod yn hen nain unwaith eto, a braf oedd cael ei chwmpeni yn y sefydliad a hithau ar drohwy ei phen-blwydd yn 94 oed.

Christina yw’r trysorydd newydd a dymunwn bob llwyddiant iddi. Wedi delio â’r materion, croesawyd ein gŵr gwadd, Mr Neil Adams, sy’n wirfoddolwr gyda Gwasanaeth Achub Mynydd Ogwen ers hanner can mlynedd. Tipyn o gamp ynte? Mae yna tua 70 o wirfoddolwyr ac i ymuno â’r gwaith pwysig mae angen eitha’ gwybodaeth am yr ardal a’r mynyddoedd! Oherwydd datblygiad technoleg, erbyn heddiw mae gan bob gwirfoddolwr radio arbennig ac felly nid oes angen byw yn agos i’r pencadlys sydd wedi ei leoli wrth Lyn Ogwen sydd gyferbyn â mynydd Tryfan.

Yn yr Alban mae’r gwaith hyfforddi yn digwydd ac mae hyn yn angenrheidiol i bob aelod newydd. Ar lethrau Tryfan mae rhan fwyaf o’r gwaith achub yn cymryd lle - tua 35% ac i helpu ‘r gwaith peryglus mae ganddynt ddwy 4x4 Land Rover ambiwlans a chymorth y llu awyr 22 squadron o’r Fali yn Sir Fôn.

Bu 134 o alwadau i achub yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y rhan fwyaf yn llwyddiannus. Rhaid edmygu’r bobl yma sy ‘n gwneud y gwaith peryglus o droedio mynyddoedd ddydd a nos i achub bywyd rhan amlaf dan amgylchiadau anodd iawn. Maent yn barod i weithredu i chwilio am bobl sydd ar goll, neu ddelio gyda thrafferthion llifogydd ac eira neu unrhyw achlysur sydd angen cymorth.

Diolch am bobl fel Neil am eu gwasanaeth.

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr			
Paned a Sgwrs		Peint a Sgwrs	
Caffi Fitzpatrick 11.00 – 12.00		Douglas Arms Bethesda 20.00 – 21.00	
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis		Trydydd Nos Lun pob mis	

Cafwyd paned wedi ei pharatoi gan Mair a Kath a diolchwyd i Neil gan Ingrid.

Bingo
Bydd y Bingo a Noson Goffi nesaf yn cael ei gynnal ar 8 Mawrth am 7.30, gyda’r elw y tro hwn yn mynd at y Ganolfan. Mae llawer o wariant wedi bod ar y Ganolfan yn ddiweddar, fel cypyrddau newydd, boiler cynhesu dŵr a gwresogydd a theimlir y dylid rhoi hwb fach i gyllid y Ganolfan i helpu tuag at y costau !

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae’r sesiynau Bingo wedi codi’r arian canlynol:

Elusen “Sunny Days” - £100
Marchogaeth i’r Anabl Treborth - £115
Radio Ysbyty Gwynedd - £127
Byddin yr Iachawdwriaeth - £98
Cronfa Serena Pickavance £115
Clwb Epilepsi Ysbyty Gwynedd - £148
Uned Arbennig Babanod Ysbyty Gwynedd - £120
“Help for Heroes” - £95
Cyfanswm - £918

Diolch yn fawr iawn i bawb am eich cefnogaeth i’r Bingo, drwy fynychu neu roddion ariannol a gwobrwyon tuag at y nosweithiau.

Clwb Cant
Mae Pwyllgor y Ganolfan wedi dechrau mgyrch frwdfrydig i ddenu mwy o aelodau i Glwb Cant y Ganolfan.

Mae’r elw o’r Clwb Cant yn gyllid gwerthfawr iawn tuag at gynnal a chadw’r Ganolfan, ac mae’n galluogi fod ffioedd llogi’r Ganolfan yn rhesymol iawn. Mae’r Clwb Cant yn cael ei dynnu ar ddiwedd bob mis, gyda hanner yr arian yn mynd yn wobrwyon a’r hanner arall yn mynd tuag at y Ganolfan.

Dim ond punt y mis sydd angen ei dalu i fod yn aelod o’r Clwb Cant. Beth amdani? Os hoffech ymuno â’r Clwb Cant cysylltwch â Mair Griffiths, Pen y Bryn, Waen Wen (01248 352966).

Ffarwel
Mae Joan Lear o Stryd Fawr, Glasinfryn, wedi symud i fyw yn ddiweddar. Mae hi wedi dychwelyd at ei gwreiddiau, gan symud i fyw at ei merch ar gyrion Oldham. Pob dymuniad da iddi ar ddechrau’r cyfnod newydd yma yn ei bywyd. Mi fyddwn ni yn ei cholli hi yng Nglasinfryn.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

Eglwys Sant Cedol

Clwb 100

Mis Rhagfyr '12
1af Rhif 44
Margaret Griffith, Caerhun
2ail Rhif 4
Gaynor Perry, Nant Y Garth
3ydd Rhif 22
Ann Williams, Rhiwlas

Mis Ionawr '13
1af Rhif 30
Mair Roberts, Rhiwlas
2ail Rhif 39
Beryl Griffith Pentir
3ydd Rhif 26
Catherine Roberts, Rhiwlas

Gwellhad
Anfonwn ein cofion at Bill Lloyd-Williams, Min Ogwen, Bethesda sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd ag at Averill Thomas, Alban, Pentir sydd wedi treilio cyfnod yr ysbyty yn ddiweddar ar ol damwain yn ei chartref. Brysiwch wella oll dau.

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mike yn ei brofedigaeth o golli mam annwyl, sef Pat Jarvis, Bro Infryn, Glasinfryn.

Bingo a Chrempog
Yn Y Ganolfan, Glasinfryn prynhawn Sadwrn y 16 Chwerfor am 2y.h. Mae croeso cynnes i chwi ymuno a ni am gem o Fingo sydd i’w dilyn gyda Te Crempog.

Gŵyl Ddewi
Nos Sadwrn yr ail o Fawrth am 6.30y.h. yn Eglwys St. Cedol, bydd noson gymdeithasol i ddatlu gwyl ein nawddsant. Mae croeso cynnes i chwi ymuno yn y dathliad.

Gwasanaethau'r Sul
Cynhelir y gwasanaethau bob bore Sul am 9.45y.b.:
Sul cyntaf ar trydydd - Cymun Bendigaidd - dwyieithog
Ail a pedwerydd Sul - Boreuol Weddi - dwyieithog
Mae croeso cynnes i bawb ymuno yn wasanaethau'r Sul.

Diolch
Fel Eglwys hoffwn ddiolch i bawb a gefnogodd ein gweithgareddau yn ystod 2012. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

Teyrnged i Pat Jarvis gan ei mab Mike

Symudodd Pat a Don i Bentir o Swydd Stafford ym 1975, a phrynu Tan-y-bryn, a oedd ar un cyfnod yn Siop Bwtisiar. Roedd angen gwaith atgyweirio a moderneiddio arno a gwnaeth Don y gwaith i gyd ei hun.

Dechreuodd y ddau weithio yn ffatri Denis Ferranti ym Mangor, Don fel weldar a Pat yn yr adran gwneud ffonau.

Roedd Pat yn weithgar iawn ym mywyd y gymuned, yn helpu gyda’r Eglwys a’r arddwest, tra bod Don yn gweithio’n galed ar eu tŷ. Yn ei amser sbar roedd yn ysgrifennwr o fri, yn cynhyrchu llawer o erthyglau ar gyfer papurau cenedlaethol.

Ar eu hymddeoliad symudodd y ddau o Dan-y-bryn i’r Graig ac yna i Lasinfryn.

Parhaodd y ddau i fod yn weithgar ar ôl ymddeol, ac wrth iddynt ddatlu 60 mlynedd o briodas roedd Don yn dal i ysgrifennu a phaentio a Pat yn dal i gefnogi’r Eglwys trwy wnïo a gwau.

Oherwydd eu caredigrwydd a’u haelioni gwnaeth y ddau gyfeillion oes yn yr ardal.

Yn drist bu Don farw yn hydref 2008, wedi cystudd hir. Bu farw Pat yn dawel a heddychlon yn Ysbyty Gwynedd ar 6 Ionawr 2013 wedi cystudd hir.

Marwolaeth
Ar fore dydd San Steffan, a hithau ar drohwy ei phenblwydd yn naw deg a saith, bu farw Ellen Elizabeth Williams, neu fel yr adwaenid hi gan drigolion Pentir – Nel Bryn Hywel.

Fe anwyd Nel yn Llanfechell, Ynys Môn, lle treuliodd ei blynyddoedd cynnar. Pan oedd yn un ar bymtheg oed daeth i weini at hen deulu Bryn Hywel fel morwyn fach, ac yno y treuliodd ei bywyd. Wedi colli’r olaf o deulu Bryn Hywel, sef Mr Robert Evan Roberts, y Giaffar fel y galwai o, yn 1987, treuliodd Nel ei hamser yn garddio, cadw cathod a cherdded. Cerddai filltiroedd bob wythnos, o gwmpas y fferm. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da iawn yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf yma, a threuliodd rai misoedd yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri, ac wedi hynny tair blynedd a hanner yng Nghartref Bryn Llifon ym Mangor, lle cafodd ofal o’r radd orau. Yno y bu hi farw.

Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa Bangor, dan arweiniad y Parchedig W R Williams, y Felinheli, yng nghwmni nifer o’i theulu a’i ffrindiau. Claddwyd ei llwch ym medd teulu Bryn Hywel.

Priodas



Ar 30ain Rhagfyr 2012 priodwyd Cadi Iolen (merch Cynrig a Carys, Pentir) ac Elfyn Jones-Roberts (mab Hefin a Margaret, Blaenau Ffestiniog) yng Nghapel Peniel, Waen Pentir, Rhiwlas. Cynhaliwyd y gwasanaeth priodas gan y Parchedig Ddr Hugh John Hughes gyda Iona Jones yng ngofal yr organ.

Y gwas priodas oedd Dylan, brawd Elfyn, a chafwyd cyfraniadau gan Elin, sef chwaer Cadi a'i nai Cian Iolen. Bu'r brecwast priodas a'r parti nos yng Ngwesty Seiont Manor, Llanrug.

Hoffai Cadi ac Elfyn ddiolch yn fawr iawn am y llu o anrhegion a dymuniadau da a dderbyniasant

Llywydd Newydd



Llongyfarchiadau i Cynrig Hughes, Rallt Uchaf, ar gael ei ethol yn llywydd Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon.

Yn y llun gwelir y Parchedig Ddr. Hugh John Hughes, y cyn lywydd, yn cyflwyno Beibl y Cyfundeb iddo yn y Cyfarfod Chwarter a gynhaliwyd yn Ebeneser, Hen Golwyn, ar 30 Ionawr. Dymunwn yn dda i Cynrig yn y swydd dros y ddwy flynedd nesaf.

Pesda Roc yn Cyflwyno

Gai Toms a'r Band



Neuadd Ogwen, Bethesda
Nos Wener, 15-03-13

£6.00

Albwm newydd,
'Bethel'
ar werth nawr



Nyth y Gân

Y Wraig Weddw a'r Mangl

Mae'n od fel y gwnaeth tlodi eu hannog
I rannu a rhoddi,
A hyn wnaeth ein teidiau ni
A'u piler fu'r capeli.

O'n hil y chwarel hawliodd, a lludw
I'r weddw a roddodd;
Anobaith a wynebodd
Yn y man lle nad oedd modd.

Ar unwaith mangl brynwyd, a hithau'r
Wraig weithiodd yn ddiwyd;
Daeth diolch am 'r hyn olchwyd
I bawb a oedd angen bwyd.

Mewn oes llawn cymwynasau, hwy ydoedd
Y bobloedd â'u beiblau;
Hwy gynigiodd geiniogau
O'r graig i'r wraig 'sgafnu'r iau.

Y Chwarelwyr (adeg y Streic Fawr)

Rhwyg a gaed ar y graig gynt ac yn hon
Fe gawn hanes helynt:
Hir ing ddaeth yno rhyngddynt,
Hirach boen fu'r afiach bunt.

Dwylo Chwarelwr

Ar wyneb clogwyn dringai
A gwasgu'r rhaff a wnaethai,
Gan fod ei ffydd mor gryf yn hon
Yn eofn iawn y teimlai.

Ei ddwylo oedd yn gryfion
'Rôl taro'n hir ar gynion
A gwyddai sut i hollti'r graig
I'w wraig gael yr enillion.

Mor anodd oedd bryd hynny
I geisio cynnal teulu,
Ond llwyddo wnaethai aml un
Â'i gŷn fu yn ei ddyrnu.

Fe fynnai gwell i'w feibion
Na rhwygo'r ponciau llwydion,
Mil 'sgafnach fyddai llyfr na rhaw
A'r baw mewn 'sgidiau trymion.

Bob tro y deuai'r Suliau
Fe blygai ar ei luniau
Ac ar raff arall gwasgai'n dynn
Bryd hyn yn ei weddiau.

Oes y Pwyso Botwm

Mae ar droi, mae'r lle mor drwm, i ni daeth
Cymdeithas y botwm;
Y mae'r llu â'u sgwrs mor llwm
Yn chwalu yno'i chwllwm.

Dafydd Morris

Anfonwch eich cerddi at Ieuan Wyn, Talgarreg, Carneddi
01248 600627 cylch@tiscali.co.uk

Croesair Chwefror 2013

AR DRAWS

- 1. Sesiwn mewn capel. (5)
- 4. Digwydd i eira neu dwrci cyn y Nadolig. (4)
- 7. Yn cael moduron. (4)
- 8. Dilychwin a thaclus. (8)
- 9. Dangos i mi ffenast o addewidion gwleidyddol a chwalwyd. (9)
- 10. Dod a phawb at ei gilydd. (3)
- 12. Dail yn newid o liwiau'r haf i liwiau'r hydref. (6)
- 14. Fawr o siawns i olwg neb fod yn dda pan fydd hi fel hyn. (6)
- 16. Yr wyddor. (1,1,1)
- 18. 1813 i 2013. (3,6)
- 21. Anhwylder poenus ar y traed, yn y gaeaf mi dybiech. (4,4)
- 22. Un hanner o deitl nofel Kate Roberts am efeilliaid ifanc. (1927) (4)
- 23. Hen enw Cymraeg am y Beibl, 'Y ----'. (4)
- 24. Cerddeddiad, er fod dryswch yn cau am fy nghoesau. (5)

I LAWR


- 1. Ebwch o ollyngdod. ----- o ryddhad. (7)
- 2. Mi wnes i geryddu a dweud ydrefn. (8)
- 3. Ceg cronfa. (5)
- 4. Medrwrch fagu neu chwythu hwn, un yn gadarnhaol a'r llall yn negyddol. (4)

- 5. Heb ymdroi, ar eich ----- (5)
- 6. Ei roi ar wyneb y ffordd o flaen deg o Loegr cyn cael rhywbeth blasus i'w fwyta i de. (6)
- 11. Cyflwr tanwydd yn llosgi mewn fflagl. (8)
- 13. Ni fydd cleddyf mawr Gorsedd y Beirdd yn cael ei dynnu'n ----
- llwyr am mai cleddyf heddwch ydyw. (1'1, 4)
- 15. Mae gan Kyffin, Mostyn, Myrddin a Glyn y Weddw rai. (7)
- 17. Neidiwr bach ar gob Porthmadog wedi drysu'n llwyr. (5)
- 19. Trachwant y cant ar ôl yr eiddil. (5)
- 20. Canlyniad gêm. (4)

ATEBION CROESAIR IONAWR 2013

- AR DRAWS 1. Dyn; 3. Sefyllian; 9. Pranc; 10. Gwatwar; 11. Nai; 13. Cymeradwy; 14. Clyfar
- 16. Estrys; 18. Llaw flewog; 20. Uwd; 22. Di-bafin; 23. Swper; 25. Gyda'r nos; 26. Gwy.

- I LAWR 1. Dipyn; 2. Noa; 4. Esgimo; 5. Y faeres; 6. Iawnderau; 7. Norwyes; 8. UCAC; 12. Isymwybod; 14. Colledig; 15. Aflafar; 17. Gwynto; 19. Gast; 21. Dirwy; 24. Pig.



Yr ychydig wallau a gafwyd y tro hwn i amharu ar sgôr perffaith oedd ‘segrian’, ‘cwacwyr’ a ‘tan’ yn lle’r atebion cywir ‘sefyllian’, ‘gwatwar’ a ‘dyn’. Yr un a ddaeth o’r het yn fuddugol oedd ymgais Ann Carran, 26 Ffordd Ffrydlas, Bethesda.

Llongyfarchiadau mawr i chi. Diolch hefyd i’r canlynol am atebion hollol gywir : Ann Ifans, Penisarwaun; Gareth a Sara Oliver, Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Tregarth; Rita Bullock, Bethesda; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; E.E. Roberts, Llanberis; Karen Williams, Elfed Evans, Llanllechid; Doris Shaw, Bangor; Jean Vaughan Jones, Heulwen Evans, Rhiwlas.

Atebion erbyn dydd Mercher 27 Chwefror i ‘Croesair Chwefror’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:


Cyfeiriad:

Chwilair Chwefror

Roeddwn i wedi addo i rai y byddai’r Chwilair yn ailddechrau y mis hwn, ond oherwydd trafferthion technegol gyda’r cyfrifiadur bydd yn rhaid disgwyl tan y mis nesaf.

Gydag ymddiheuriadau.

Andre.



Annwyl Olygydd,
Mae'r Gronfa Loteri Fawr a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yn galw ar bobl ar draws Cymru i roi dechrau da i 2013 trwy wirfoddoli eu hamser mewn grŵp cymunedol neu elusen leol.

Yn ogystal â gwneud gwahaniaeth i bobl eraill, dengys ymchwil y Gronfa Loteri Fawr y gall gwirfoddoli helpu i gynyddu sgiliau, hyder a hunan-barch.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ariannu miloedd o achosion da trwy gydol Cymru - o ofal seibiant ar gyfer gofalwyr, prosiectau i helpu pobl i oresgyn anableddau neu salwch, cefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial, neu adfywio parciau a mannau cyhoeddus - y mae llawer ohonny'n nhw'n chwilio am gefnogaeth gan wirfoddolwyr. Gallwch gael gwybod am yr ystod o gyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael gyda rhai o'n prosiectau trwy fynd i'n gwefan www.biglotteryfund.org.uk/welsh/community/blue-monday

Mae yna filoedd o weithgareddau ac elusennau eraill y mae angen cefnogaeth arnynt. Ewch i www.gwirfoddolcymru.net i gael mwy o wybodaeth a chyfeiriadau i fudiadau a gwefannau gwahanol sy'n helpu pobl i gymryd rhan.

P'un a oes gennych hanner awr i gael sgwrs gyda'ch cymydog oedranus neu y gallwch gynnig ymrwymiad rheolaidd, mae cyfleoedd i bawb wirfoddoli.

Cofion Gorau
John Rose
Cyfarwyddwr Cymru, Cronfa Loteri Fawr

FFERMWYR IFANC ERYRI

Ugain mlynedd yn ôl (ia, ugain mlynedd yn ôl, coeliwch neu beidio) ym 1993 cyhoeddwyd y gyfrol “Y Llinyn Aur” i ddathlu hanner canmlynedd ers sefydlu Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri ym 1943. Cafwyd cyfrol hwyliog a chynhwysfawr oedd yn cwmpasu’r cyfnod mewn modd difyr a diddorol. Bu cyfraniad aelodau, cyn-aelodau a chyfeillion yn hollbwysig i’w llwyddiant a chafwyd adlewyrchiad teilwng iawn o’r “Dyddiau Difyr, Dyddiau Da”.

Ia, dyna chi, rydach chi’n llygad eich lle. Mae hi’n 2013 a syrpreis, syrpreis, ein bwriad yw dathlu 70 mlynedd ers sefydlu’r mudiad yn Eryri a cheisio cyhoeddi cyfrol yr un mor apelgar â’r gyfrol honno a gyhoeddwyd ym 1993.

A dyna chi’n iawn drachefn. Ydan, rydan ni wir angen eich cymorth ac yn mynd ar eich gofyn unwaith eto am bob cyfraniad posib’, boed bosteri neu luniau, atgofion neu hanesion, sy’n berthnasol i’r ugain mlynedd diwethaf, hynny yw rhwng 1993 a 2013. Dyna esgus iawn i chi gael sbario carthu’r cytiau neu glirio’r gegin ambell i noson er mwyn cael tyrchu drwy’r bocsus lluniau neu ysgrifennu ambell atgof ar ffurf pennill neu stori. Os na fedrwrch chi wneud eich hun ceisiwch annog rhywun arall i wneud!

Dyma dasg arall i chi hefyd. Rydym angen rhestr gyflawn o’r holl glybiau a sefydlwyd yn Eryri dros y 70 mlynedd diwethaf a byddem yn ddioelchgar iawn pe medrech ein cynorthwyo i lunio rhestr o’r fath a fyddai’n cynnwys enwau’r holl glybiau.

Gwn fod gwaith mawr o’n blaenau i gasglu deunydd ar gyfer y gyfrol ond mae’n eithriadol o bwysig cofnodi cyfnodau hanesyddol ein mudiad er mwyn i ni, a phawb tu draw i ffiniau Eryri, gael cip ar werth 70 mlynedd o weithgarwch diflino y mudiad rhwng dau glawr a chael, unwaith eto, brofi rhin y rhialtwch hwnnw.

Hoffem dderbyn y deunydd erbyn 26ain Ebrill, os gwelwch yn dda, a hynny drwy e-bost i Eryri@yfc-wales.org.uk neu drwy’r post i Swyddfa Ffermwyr Ifanc Eryri, Uned 12, Parc Glynllifon, Ffordd Clynnog, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5DU.

OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475
pandv.owen@btinternet.com

Tony Davies
Plymio a Gwresogi
Tŷ Capel Peniel, Llanllechid
Rhif Corgi 190913

☎ Symudol 078184 10640

☎ 01248 601 466

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

Tudur Owen, Roberts, Glynne

a'u cwmni



DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG

☎
BETHESDA
01248 600171
torg@hotmail.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT

SYMUD Tŷ

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda

♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWYR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Gorsaf betrol
B E R A N
Deiniolen
Ffôn: Llanberis 871521
Ar agor bob dydd 24/7

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau newydd
Cardiau pen-blwydd • Melysion
Tocynnau loteri
Gwasanaeth PAYPOINT ar gyfer
trydan, nwy, ffonau symudol,
trwyddedau teledu ayyb

Malinda Hayward
(Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

L. Sturrs
a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953
Ffacs: 602571
lsturss@googlemail.com

Hysbysebwnch
yn y Llais
600853

"J.R."

SGAFFALDWYR

**Yr Iard, Ffordd Stesion
Bethesda**

Ffôn: (01248) 601754

Dyma ni - sgaffaldwyr o fri

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
2 Hen Aelwyd, Bethesda
☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Dyddiadur Digwyddiadau – Cyn 1900

Rai blynyddoedd yn ôl, wrth bori drwy ddeunydd hanes lleol Dyffryn Ogwen sydd gen i yn y tŷ 'cw a sylwi ar ambell gyfeiriad at ryw ddyddiad neu i gilydd yn cofnodi digwyddiad neu achlysur yn y Dyffryn, meddyliais y byddai'n syniad da i gynhyrchu 'Dyddiadur Digwyddiadau'. Wedi dechrau ar y dasg, sylweddolais fy mod wedi ymgymryd â gorchwyl enfawr! Edrychais ar rai degau o lyfrau a llyfrynau, pamffledi a thaflenni – heb symud cam o'm stydi – a chodi ohonynt bob dyddiad a chyfeiriad at bethau a ddigwyddasai yn Nyffryn Ogwen dros y canrifoedd.

O ran trefn y dyddiadur, nodir y flwyddyn (ac union ddyddiad lle'r oedd hynny ar gael), yna'r cofnod (byr, gan amlaf), ac wedyn ffynhonnell yr wybodaeth (ar ffurf byrfodau), gan obeithio y byddai hynny o gymorth i unrhyw un a ddymunai weld y ffynhonnell wreiddiol i gael rhagor o wybodaeth (pe bai ar gael). Wrth gwrs, heb wneud llawer iawn o ymchwilio trylwyrach, ni allaf sicrhau bod y ffynonellau bob amser yn gywir.

Yr un agwedd arall ar y gwaith ydi fy mod wedi cofnodi manylion perthnasol pob ffynhonnell (gan gynnwys teitl, awdur, cyhoeddwr, dyddiad, etc.) gyda'r canlyniad fod gen i bellach lyfryddiaeth yn datblygu o ddeunydd Dyffryn Ogwen – a fydd, gobeithio, o gymorth i unrhyw un sy'n cymryd diddordeb yn hanes yr ardal.

Gan fy mod wedi ymroi i gyflawni gorchuchwylion eraill ers rhai blynyddoedd bellach, ac oherwydd diffyg amser o ganlyniad i hynny, rhoddais y gorau i'r 'Dyddiadur Digwyddiadau' am y tro ac erys yng nghwsg ym mherfeddion fy nghyfrifiadur! Ond, yn sicr, mae'n waith rhy bwysig – a diddorol – i'w roi o'r naill du a'i anghofio, fel y gobeithiaf ddangos i ddarllenwyr *Llais Ogwan* gydag ychydig ddyfyniadau ohono) yn yr ysgrif hon (ac mewn ysgrifau eraill i ddilyn dros y misoedd nesaf). Dewisais beidio â nodi'r ffynonellau na chydabod awdur ambell gofnod –gydag ymddiheuriadau ymlaen llaw am hynny. Dyma ychydig o gofnodion yn perthyn i ddiwedd y ddeunawfed ganrif.

1782 Dyma flwyddyn geni'r Parchedig Morris Jones (*Yr Hen Broffwyd*), gweinidog cyntaf Capel Jerusalem. Adeg Cyfrifiad 1841, nodir ei fod ef, ei wraig, Catrin, a'u deg plentyn (un ferch a naw mab) yn byw ym Modforris (ger croesffordd Pont-y-Tŵr). Tŷ llofft a siambar bychan iawn oedd eu cartref. Roedd y plant i gyd rhwng 10 a 30 oed a'r rhan fwyaf o'r meibion yn gweithio yn Chwarel y Penrhyn. Bu farw Morris Jones yn 1862.

1789 Codi Pont Coetmor. Nodaf, er diddordeb, mai dyma'r flwyddyn y dechreuodd y Chwyldro Ffrengig a blwyddyn y 'Mutiny on the Bounty'.

1790 Adeiladu'r harbwr yn Abercegin a'i alw'n Port Penrhyn.

1792/3 Yr Arglwydd Penrhyn yn codi'r ffordd gyntaf (a gamenwyd yn lleol yn '*Roman Road*') drwy Nant Ffrancon. Cyn hynny, yn ôl Thomas Pennant, y teithiwr, nid oedd yno ond 'the most dreaded horsepath in Wales' a hwnnw'n rhedeg ar hyd ochr ddwyreiniol Nant Ffrancon (fel y ddwy ffordd 'newydd' a godwyd drwy'r Dyffryn ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg). Roedd ffordd newydd yr Arglwydd Penrhyn yn mynd i hwyluso cludiant ei lechi i gyfeiriad y de a, hefyd, yn mynd i fod yn gyswllt pwysig rhwng ei blasty yn Llandygái a'r gwesty moethus y bwriadai ei godi yng Nghapel Curig (sef y Royal Hotel – Plas y Brenin erbyn heddiw).

Y tro nesaf, byddaf yn cynnwys pytau o deunaw mlynedd cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Cofio


Y Parchedig David Adams (1845-1923)
Gweinidog Capel Mawr Bethesda 1888 i 1895

Gan Goronwy Wyn Owen

Brodor o Dal-y-bont, Ceredigion, oedd y Parchedig David Adams. Yr oedd yn rhyw lun ar fardd ond, yn bwysicach, roedd yn ddiwinydd ac yn athronydd o bwys nid bychan yn ei ddydd. Cyhoeddodd ar draws y dwsin o draethodau a llyfrau siwinyddol pwysig rhwng 1884 a 1914. Dysgodd ddarllen ac ysgrifennu yn gynnar yn yr Ysgol Sul, a derbyniodd ei addysg elfennol yn Ysgol Llanfihangel lle dyrchafwyd ef maes o law yn 'pupil teacher' yn ôl arfer yr oes honno. Aeth i'r Coleg Normal ym Mangor yn 1865. Enillodd ysgoloriaeth i Goleg Prifysgol Aberystwyth yn 1875 gan raddo yn BA yn 1877, gradd a ddyfernid yr adeg honno gan Brifysgol Llundain. Yr oedd yn fedrus yn y Clasuron ac wedi dysgu digon o Ffrangeg i'w alluogi i gyfieithu'n rhwydd a chywir o ryddiaith y mathemategydd a'r athronydd Ffengig nodedig, Blaise Pascal, meddyliwr a ddigwyddai gydgesi â Morgan Llwyd o Wynedd (1619-1659), yr athrylith Piwritanaidd hynod hwnnw yn hanes ein llenyddiaeth ni y Cymry. Ordeiniwyd Adams i'r weinidogaeth gyda'r Annibynwyr ym mis Mai 1879, a bu'n gofalu am ddiadelloedd eglwysi Hawen a Bryngwenith, Ceredigion, hyd nes iddo symud i'r Gogledd, i Fethesda yn Hydref 1888.

Am ei weinidogaeth yn y Capel Mawr, dywedodd David Adams: ... arweinwyd fi i Fethesda, a chefais y fraint o lafurio am saith mlynedd ymysg chwarelwyr deallus yr ardal honno... Yr oedd y chwarelwyr hyn yn graff, ac yn feirniaid disgybledig – ar bregethu'n arbennig... Cymerent bregeth i fyny yn ystod yr awr ginio, gan wneuthur briwgig o aml un a chymeradwyo eraill, yn ôl eu goleuni a'u chwaeth. Eithr darganfŷm yno fod gweithwyr yn meddwl – nid drostynt eu hunain ond yn ddiadelloedd, a bod clod ac anghlod yn ymledu'n gyflym, a hynny rai prydiau nis yn ôl teilyngdod neu annheilyngdod, ond yn ôl y ddedfryd a euthai allan o'r chwarel. Dywedid mai eu difyrrwch oedd gwrandao a beirniadu pregethau.... yr oedd o leiaf yn ddifyrrwch mwy rhesymol na diddordeb y gweithiwr Seisnig yn lwc posibl rhyw geffyl mewn rhedegfa.

Mae'n amlwg fod David Adams wedi chwarae rhan flaenllaw iawn ym mywyd cyhoeddus Bethesda, a thu allan i gylch yr achos yn y Capel Mawr, ymroddodd i wasanaeth cyson ym mywyd addysg y fro ac mewn gwleidyddiaeth. Dywedodd y Prifathro Thomas Rees mewn ysgrif yn Y Geninen yn 1922: Bu'n gefnogydd ffyddlon i hen Ysgol y Cefnfaes; yr oedd yn arweinydd yn y mudiad i gael ysgol ganol i'r lle, ac efo oedd cadeirydd ei llywodraethwyr o'r cychwyn hyd nes yr ymadawodd i Lerpwl [yn Hydref 1895]... Yr oedd yn siaradwr dylanwadol ar y llwyfan. Dywed pobl Bethesda nad oedd yma neb yn ei ddydd o gyffelyb ddylanwad ar gyfarfod cyhoeddus.



Y Parchedig David Adams (1845-1923)

Yr oedd W J Parry, Neuadd Coetmor wedi dweud hyn am ei weinidog: Pan geir athrylith o ryw natur mewn cymeriad, y mae hwnnw yn werth ei ddilyn, ei godi, ei fawrygu, a'i fywgraffu. Yr oedd David Adams yn gymeriad felly.

Yr oedd David Adams yn ffigwr eithriadol o bwysig yng Nghymru yn ei gyfnod, ac mae'n haeddu cael ei gofio nid yn unig am iddo fod yn weinidog ym Methesda gynt ond hefyd am ei fod yn feddyliwr o safle cenedlaethol.

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun – Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 – 12.00
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00
01248 600219
www.douglas-arms-bethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Newydd agor ym Methesda ym mis Medi
Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")
Mwy o fanylion gan Wendy ar 07748206817

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymmerwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(*mewn awyrgylch cyfeillgar*)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(*yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi*)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Ffoniwch

01248 602550

e-bost : karena@agoriad.org.uk

Gallai eich hysbyseb

Chi

fod yma

**Cysylltwch â
Neville Hughes 600853**

LONDIS BETHESDA

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

**Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos**

Gareth Williams Trefnydd Angladdau

**Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda**

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle

Prisiau rhesymol

Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



**STEPHEN
JONES**



**TREFNYDD
ANGLADDAU**

**Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd**

Gweithdy Pen-y-bryn

Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw'r



Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

LLanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

Côr Meibion y Penrhyn

Cyngerdd Mawreddog

Mae'r côr yn parhau i ddod â digwyddiadau o bwys i Ddyffryn Ogwen a'r nesaf yw cyngerdd yng nghwmni un o sêr mwyaf y byd cerddorol, sef Rhys Meirion, ar Nos Sul, Chwefror 24. Yn cadw cwmni i Rhys a'r côr bydd Gwenllian Jones sy'n gantores o fri ei hun a bydd y noson fawr hon yn digwydd yng Nghapel Jerusalem am 7 o'r gloch yr hwyr a'r cyfan am bris rhesymol iawn o £6. Gwelir posteri mawr yn hysbysebu'r cyngerdd o flaen Capel Jerusalem ac wrth groesffordd Bryn Bella – felly cofiwch y dyddiad a dewch draw am wledd o ganu safonol.

Rhaglen lawn.

Mae gan y côr raglen lawn o ddigwyddiadau o'i flaen eto eleni gyda nifer o gyngherddau yn Llandudno a thaith i Beverly yn Swydd Efrog ym Mis Ebrill. Ar ben hynny mae'r côr wedi penderfynu rhoi cynnig arni yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen am y tro cyntaf ers dros 20 mlynedd pryd y byddwn yn cyflwyno rhaglen gymysg o'n heiddo ein hunain fydd yn adlewyrchu ehangder repertoire y côr ac yn cynnwys darnau sy'n nodweddu cyfansoddiadau cerddorol Gymreig. Hefyd bydd y côr yn cyd-ganu gyda Chôr Meibion Caernarfon yn y castell ar ddiwedd ail daith gerdded Rhys Meirion i godi arian i'r ambiwlans awyr ym mis Awst

Cadeirydd Newydd.

Yn y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd yn ddiweddar etholwyd Alun Davies i swydd cadeirydd y côr. Bu Alun yn is-gadeirydd diwyd a gweithgar am y ddwy flynedd ddiwethaf o dan gadeiryddiaeth Wil Parry. Wrth groesawu Alun i'r swydd diolchodd Wil i'r aelodau am eu cefnogaeth a'u parodwydd i weithio er lles y côr tra bu ef yn y gadair. Pwysleisiodd hefyd pa mor ffodus ydyn ni o gael arweinydd mor frwdfrydig ag Owain Arwel Davies i'n llywio ac am gael cyfeilydd mor dalentog â Frances Davies i'n cynorthwyo ar y piano.

Cyfeirodd at Anthem, CD ddiweddaraf Côr y Penrhyn, fel un o'r recordiadau mwyaf cyffrous a gynhyrchwyd gan unrhyw gôr yng Nghymru'n ddiweddar ac mae'r gwerthiant yn adlewyrchu mor boblogaidd yw cynnyrch y côr ar hyn o bryd.

Côr Meibion Dinas Bangor

Pum mlynedd ar hugain yn ôl yn Ionawr 1988 ffurfiwyd y Côr gan James Griffiths. Ar ôl ysgrifennu i'r papurau lleol daeth 12 o ddynion dewr i Ganolfan Esgobaeth Bangor yn Stryd Waterloo gyda'r bwriad o ffurfio côr meibion ym Mangor. Yr oedd James Griffiths yn Is Organydd Cadeirlan Bangor ar y pryd a Deon Bangor, y diweddar Ivor Rees a ddaeth yn Esgob Tyddewi yn ddiweddarach, yn gefnogol i'r syniad gan roi Canolfan yr Esgobaeth yn rhad ac am ddim am rai wythnosau i'r Côr gael ei sefydlu yn iawn. Dau arall oedd yn gefnogol i'r syniad oedd y diweddar Idris Thomas o Fethesda - cadeirydd cyntaf y Côr a hefyd y diweddar Cyril Roberts, Bangor. O'r deuddeg gwreiddiol dim ond dau sydd ar ôl yn y Côr sef Emrys Hughes a James Griffiths.

Ar draws y blynyddoedd y mae'r Côr wedi rhoi rhai cannoedd o gyngherddau, wedi teithio llawer i America, Canada, Yr Almaen, Awstria, Malta, Cyprus, Llydaw a Gogledd Iwerddon. Cyfeilydd y Côr bron iawn o'r cychwyn yw Lowri Roberts Williams o Frynrefail ac mae hi wedi bod yn hynod o ffyddlon i'r Côr ar draws y blynyddoedd. Y mae'r Côr hefyd wedi cynhyrchu CD sydd wedi cael derbyniad gwych gan i sawl darn arno gael ei ddewis i fod ar CD efo Corau Llanelli, Godre'r Aran a Phontarddulais i enwi tri.

Bydd James Griffiths yn ymddeol o'r Côr ar ddiwedd Ionawr ond yn aros ymlaen nes bydd arweinydd newydd wedi cael ei benodi.

Mewn cinio arbennig i aelodau yng Ngwesty Carreg Bran nos Wener 25 Ionawr dathlwyd 25 pen-blwydd y Côr. Yn ystod y cyfarfod cafodd yr arweinydd James Griffiths ei anrhegu gan y Cadeirydd Dafydd Ellis ar achlysur ei ymddeoliad swyddogol fel arweinydd. Gwnaed bocs pren peintio arbennig o gelfydd yn arbennig iddo gan Dafydd Ellis gyda phopeth sydd ei angen at beintio dyfrliw ynddo. Hefyd, rhoddwyd tusw o flodau i Mrs Mair Griffiths gan Norman Evans ar ran y Côr. Yn ei arait i ddathlu'r pen-blwydd arbennig soniodd yr Arweinydd am y cychwyn ac yna ddyddiau cynnar ac anodd y Côr ac fel ar draws y blynyddoedd y mae'r Côr wedi datblygu ac wedi teithio llawer gan roi cyngherddau a chymryd rhan mewn sawl digwyddiad pwysig. Edrychir ymlaen at y dyfodol pan fydd arweinydd newydd yn cael ei benodi/phenodi gyda gobaith.

Yn y cyfarfod blynyddol nos Fercher 23 Ionawr etholwyd y canlynol:
Llywydd:Mr Cledwyn Jones
Cadeirydd: Dafydd Ellis
Is Gadeirydd: Gwyn Hefin Jones
Ysgrifennydd: Owain Myfyr Parry
Trysorydd: H.H.Williams
Pwyllgor: Norman Evans, Emrys Hughes, R.J.Williams, Doug Jones, Elwyn Jones

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Ionawr, aeth rhai o'r aelodau i gyfarfod o bwyllgor gwaith Plaid Lafur Arfon yng Nghaernarfon, i ethol anfonogion i gynhadledd Plaid Lafur Cymru (a fydd yn Llandudno ar ddiwedd mis Mawrth), ac i ddechrau gwneud cynlluniau ar gyfer yr etholiadau nesaf, a chael adroddiadau gan y swyddogion.

Yng nghanol y mis, cynhaliwyd y cyfarfod misol i gael adroddiadau am Blaid Lafur Arfon, Cyngor Gwynedd (e.e. y pryder am Ymgynghoriaeth Gwynedd a'r penderfyniad i godi trethi o 35%), Cyngor Bethesda (e.e. y grantiau i wella blaen siopau, a'r cyfyngiadau parcio newydd ar y Stryd Fawr), a Chyngor Llandygai (e.e. problemau Allt St. Anne's, a phwyso am well cyflenwad dŵr i ymladd tanau). Cynhelir y cyfarfod nesaf ar y bedwaredd nos Fercher o fis Chwefror (y 27ain) yng Nghanolfan Cefnfaes am 7.30.p.m.

Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen ar Ionawr 29ain. Y brif drafodaeth oedd sefyllfa parcio yn y Gerlan a'r ffaith bod trafnidiaeth gyhoeddus yn cael trafferthion troi yn y pentref. Mae'r cynghorydd sirol mewn trafodaethau ynglyn â'r sefyllfa a mawr obeithir datrys y broblem hon gan ei bod hefyd o fater pwysig i wasanaethau brys. Bu'r heddlu allan yn ddiweddar fel ymateb i gwynion yn gweld difrifoldeb y sefyllfa.

Cafwyd ymateb da gan drigolion Talybont pan fu Alun Ffred A.C. yn ymweld â hwy wedi'r llifogydd difrifol. Roedd y gymhorthfa a gynhaliwyd ganddo ym Mynydd Llandygai hefyd yn brysur iawn.

Bu'r Cynghorydd Dafydd Meurig mewn cysylltiad â Chwarel y Penrhyn sydd wedi cyfrannu £500 i Gronfa Llifogydd Gwynedd sydd ar gael i gefnogi ei thrigolion.

Canmolwyd Meirion Williams o Gyngor Gwynedd am ei waith yn ystod yr eira gan wneud yn siŵr bod gwaith graeanu'n cael ei wneud yn rheolaidd ar y ffyrdd priodol.

Diolchwyd i Neville Hughes ac Ann Williams am fynychu angladd Mr Royston Morgan, aelod ffyddlon a gweithgar o Blaid Cymru. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu.

Mynegwyd siom nad oedd yn bosib cynnal Noson Dwynwen oherwydd effeithiau'r tywydd drwg. Gwnaed y trefniadau terfynol ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol ac ymweliad Leanne Wood yng Nghanolfan Cefnaes ar nos Wener, 22 Chwefror.

Bydd Bore Coffi'r Gangen yn Neuadd Ogwen fore Sadwrn, Chwefror 23ain.

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Ymunwch â Chlwb Cant
Cyfeillion Llais Ogwan.
Gwobrau hael bob mis.

Neville Hughes

☎ 600853

Prynwch lyfr
**RHAI O ENWOGION LLÊN
DYFFRYN OGWEN**
(Dr. J. Elwyn Hughes)

£3.00 y copi o'ch siopau lleol
Londis neu Siop Kathy

Neu cysylltwch â'r awdur ei hun
am gopi wedi ei lofnodi ganddo
01248 670517
(£4.20 drwy'r post)

MODURON
PANDY
Cyf.

Tregarth
Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.

Ffôn: 01248 600619 (dydd)

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

Meithrin menter gymdeithasol leol

Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli

cysylltwch â

Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271



BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Gallai eich hysbyseb

Chi

fod yma
Cysylltwch â
Neville Hughes 600853

Blodau Racca

PENISARWAUN
*Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau
- gan hogan o Rachub*
Ffôn: 01286 870605

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd



- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224



Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar



Swyddfeydd eraill:

Llangefni Amlwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000



Posh Paws
Tacluso Cŵn

Busnes lleol

Prynhawniau neu Nosweithiau
4.00 - 10.00
Dydd Sul 8.00 a.m - 4.00 p.m.
Gwasanaeth casglu a danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
01248 671382 neu 07935324193
Ebost: juliaposhpaws@btinternet.com

SEINDORF BETHESDA 1910

gan Edgar Roberts, Llanfairpwll.(gynt o Fethesda)

Ychydig amser yn ôl roeddwn yn siarad ar y ffôn gyda'r Dr. John Llywelyn Williams pan ddigwyddodd sôn fod un hen ddrwm a berthynai i hen fand Bethesda, wedi ei gyflwyno yn ôl i'r ardal. O fy mlaen ar y pryd, yn hongian ar y pared, roedd llun Band Bethesda wedi ei dynnu tua 1910.



Amgaeaf gopi o'r darlun, rhag ofn fod rhai o ddarllenwyr Llais Ogwen heb ei weld. Mae'r darlun yn eithaf tebyg i'r un sydd yng nghyfrol Geraint Jones, sef Cym y Diafol, ond yn y llun yma mae pob chwaraewr yn gafael yn ei offeryn. Mae'r llun o gryn ddiddordeb i mi gan fod fy ewythr Bob, sef tad y diweddar Mrs Beryl Ralph, Rhes William, ynddo yn ogystal â fy nhad. Mae fy ewythr yn eistedd i'r dde o'r arweinydd, Mr Roberts, tad Ffrangcon Roberts, Prestatyn, tra mae fy nhad yn sefyll ynghanol yr ail res mewn siwt olau. Tybed pryd y cafodd y band eu lifrau? Gyda llaw, mae cof plentyn gennyf o weld llawer o offerynnau band yn siop y diweddar William Henry Parry, a oedd drws nesaf i hen siop Briggs yng ngwaelod Allt Twr. Roeddwn o dan yr argraff mai hen offerynnau Band Pres Bethesda oeddynt.

Roedd fy nhad yn un o bedwar o hogiau Pesda a aeth gyda'i gilydd i Awstralia ym mis Mai 1912, rhyw fis ar ôl llongddyryliad y Titanic, sydd felly dros gan mlynedd yn ôl. Un ohonynt oedd John Roberts, mab Edward John Roberts, Cigydd, a brawd i Lelan Roberts a arferai gadw caffi y drws nesaf i'r Neuadd Gyhoeddus. Un arall oedd mab i Richard Jones, Llangollen, a oedd yn byw yn agos i'r Grisiau Mawr, drws nesaf i Mr Griffith Edwards a gadwai dacs ers talwm. Nid wyf yn gwybod pwy oedd y pedwerydd. Ymhen amser ymaelodd John Roberts ym myddin Awstralia yn ystod y rhyfel cyntaf a chollodd ei fywyd yn Ffrainc.

Ychydig iawn o addysg yn ei famiaith a gafodd fy nhad yn Ysgol Tan Capel Bethesda, ac fel llawer arall cafodd aml i gansen am lithro i'r Gymraeg yn ystod gwrs, ond ymgeisiodd i ysgrifennu tipyn am ei daith yn y Gymraeg. Dyfynnaf ychydig frawddegau o'i ddisgrifiad yn gadael y Dyffryn yn 1912:

"Y peth cyntaf a welais pan yn dwad o'r tŷ (o rhif 3 Rhes Mostyn) oedd y Band yn mynd i fyny'r heol yn chwarae, a phan oeddwn yn y brif stryd ni welais fwy o bobl erioed, a phawb yn sbio o'r top (y stryd) i'r gwaelod arnom." Fe arweiniodd y band y pedwar ohonynt i lawr y stryd i'r stesion. "Pan gyrhaeddais y stesion roedd hi'n orlawn. Yr orchwyl fwyaf anodd oedd ysgwyd llaw efo llawer ohonynt. Nid oeddwn yn cael lle i droi yno, a'r merched yn gweiddi "y pethau bach", ond roedden ni yn ôl reit. Fe gawsom barch mawr wrth ymadael. Ond mi ddoth y trêni i mewn ac wedyn fuo rhaid i ni fynd i mewn, ac mi ddoth llawer iawn efo ni i Fangor i dalu'r gymwynas olaf i ni am beth amser. Mi oedd y rhan fwyaf o'r hogiau (a oedd yn aros ar ôl) yn fwy digalon na ni, yn gweld eu hunain yn gorfod aros ar ôl oherwydd yr amgylchiadau caled. Wedi i ni fod yn y stesion am dipyn dyma y mail yn dŵad, ac i mewn yr aethom reit g'lonog. Pan wrth Colwyn Bay dyma y lle y teimlais yn rhyfedd – gweld fy hun yn mentro taith mor bell." Pan gyrhaeddodd yr hogiau Llundain, roedd gŵr o Fethesda o'r enw John Wheldon yno yn eu disgwyl, i'w tywys i'w llety – wedi aros yn y stesion drwy'r nos i'w disgwyl. Y bore canlynol roeddynt yn cychwyn ar eu taith o Tilbury am Awstralia, taith o chwe wythnos.

Yn yr oes bresennol, gyda bwrlwm byw, a thrafaelio i bob cwr o'r byd yn beth mor gyffredin, mae'n anodd credu bod digwyddiad fel yr uchod wedi haeddu presenoldeb cymaint o bobl ar y stryd, yn ogystal â'r band yn arwain pedwar o hogiau cyffredin i'r stesion. Mae'n dangos cymdeithas glos, yn cymysgu fel aelodau o gorau, capeli a chyfarfodydd diwylliannol. Yn llyfryn bach fy nhad ceir llawer o gyfeiriadau hogiau a oedd wedi mentro i'r Unol Daleithiau, Awstralia a Seland Newydd. Arhosodd fy nhad yn Awstralia am ddeng mlynedd, gan fwriadu dod adref am chwe mis o wyliau ond cafodd ei berswadio gan ei fam weddw i gartrefu yn ôl ym Methesda.

Gweithiodd yn bennaf yn y gweithfeydd aur o gwmpas Kalgoorlie, Perth a Melbourne, a thra yn Kalgoorlie bu'n cydweithio yn yr un cylch â Charlie Pierce, Glasinfryn, gyntaf a William Thomas, Niwbwrch, tad Dan a Gwen. Yn ôl fy nhad roedd Charlie Pierce a Wil Niwbwrch yn beldroedwyr rhagorol. Amgaeaf lun o'r tri mewn tîm pêl-droed yn Kalgoorlie, gyda'r tri ohonynt yn eistedd yn y rhes flaen, Charlie Pierce yr ail o'r chwith gyda fy nhad a Wil Niwbwrch yn bedwerydd a phumed o'r chwith. Roedd fy nhad a Wil Niwbwrch yn aelodau o gôr y Cambrian yno hefyd. Pan oeddwn yn Kalgoorlie rhyw chwe blynedd yn ôl tipyn o sïom oedd cael gwybod nad oedd gan yr archifdy ddim gwybodaeth am fodolaeth y côr. Mae llun y côr gydag enw pob aelod, gan gynnwys y Parchedig Picton Jones eu cadeirydd, yn fy meddiant. Credaf fod Charlie Pierce wedi treulio gweddill ei oes yn Awstralia yn ogystal â mab Richard Jones, Llangollen.

Teithio'r Byd i Arholi



Un o demlau mwyf Bangkok ar lan yr afon Chao Phrayo

Un flynedd ar hugain yn ôl cefais fy newis i fod yn arholwr cerdd i un o golegau cerdd pwysicaf Llundain sef Coleg y Drindod (Trinity College London) a hynny er mawr syndod i mi. Ta waeth, dyma ddechrau ar gyfnod newydd a chyffrous yn fy hanes ar ôl cael ymdeol cynnar o ddysgu mewn ysgolion.

Yr wyf wedi ystyried fy hun yn hynod freintiedig wrth gael clywed pobl ifanc ac oedolion yn canu nifer fawr o offerynnau led-led y byd yn ogystal ag yma yn Ynysoedd Prydain. Er mai gwaith rhan amser yw arholi yr ydym fel panel o arholwyr yn hunan gyflogedig ac felly yn cael dewis a dethol faint o waith yr hoffem ei wneud yn ogystal â derbyn neu wrthod gwahoddiad i ymweld â'r nifer fawr iawn o ganolfannau sydd gan y Coleg ar draws y byd. Yn ystod fy ngyrfa fel arholwr yr wyf wedi gweithio yn Awstralia bedair gwaith, Seland Newydd chwe gwaith, Singapore saith gwaith, Gwlad Thai bum gwaith, Hong Kong sawl tro, China ddwywaith, yr Aifft dair gwaith, Gwlad yr Iorddonen ddwywaith, Bahrain, Abu Dhabi, Dubai, Oman, Ynys Cyprus dair gwaith, Malta dair gwaith ac yn nes adref Gwlad Belg, Sbaen, yr Eidal yn ogystal â gwledydd Prydain gan gynnwys Cymru!

Pan oeddwn yn ddisgybl yn Ysgol Friars lawer blwyddyn yn ôl fy hoff bynciau oedd hanes a daearyddiaeth, a hynny oherwydd dau athro gwyd yn gyfrifol am y pynciau hynny - R. Wyn Jackson o Gaernarfon oedd yr athro daearyddiaeth a ddaeth maes o law yn brifathro Ysgol Eifionnydd, Porthmadog. Yr oedd ganddo ddawn arbennig fel athro a gallai ddod â gwledydd pellafoedd byd i fewn i ystafell ddosbarth yr ysgol ac ennyn ein brwdfrydedd a'n diddordeb fel bechgyn. Dyna paham mi gredaf, y mae ymweld â'r holl wledydd hyn wedi bod ac yn dal i fod yn bleser i mi yn ogystal â'r rhesymau i mi fod yno!

Pan fyddaf yn dweud wrth rhywun fy mod yn arholwr yr ymateb cyntaf bob tro bron iawn yw, "Dwi'n cofio mynd i Gapel Twrgwyn ers talwm yn crynu yn fy sodla' i chwarae piano i rhyw hen ddyn (neu ddynes) ddi-wên, sych, crintachlyd a blin weithiau." Wrth wrando ar yr hen stori yma fy ateb bob tro fyddai, "Wel mae'n amlg nad arholwyr Coleg y Drindod oedd y rhai hynny!!"

Yr wyf wedi cael amser diddorol iawn wrth weithio ledled y byd a chyn y Nadolig yr oeddwn yn Singapore am bump wythnos ac er y cewch gymysgedd o allu ym mhob gwlad, gan gynnwys Cymru. Weithiau fe ddaw un sydd yn sefyll allan a gwneud i'r haul dywynnu er bod y dydd wedi

bod yn eithaf dwl hyd at hynny! Fe ddigwyddodd hyn i mi yn Singapore. Yr oedd tri ohonom yn arholi yno am y bum wythnos, mewn gwahanol ganolfannau ar draws yr ynys. Un diwrnod daeth bachgen deuddeg oed i fewn i'r ganolfan yr oeddwn i yn arholi ynddi ac yntau yn eistedd arholiad diploma ATCL (Associate of Trinity College London) sy'n arholiad y bydd rhai hŷn o lawer yn mentro os yw'r gallu ganddynt ac yn aml iawn yn methu oherwydd diffyg paratoi trylwyr neu ddiffyg gallu. Eisteddodd y bachgen hwn o flaen y "grand piano" ar y llwyfan a bwriodd i fewn i un o weithiau mawr Bach sef y Partita Rhif 6, yna un o sonatas Beethoven ac un o ddarnau mawr Chopin i ddilyn ac i orffen, darn sydd yn un o'r rhai anoddaf yn y repertoire piano y Polichinelle gan Rachmaninoff. Cefais fy syfrdannu gan allu y bachgen yma. Chwaraeodd y cwbl i gyd heb ddam o gerddoriaeth o'i flaen a chyda'i ddwy lygad wedi cau. Nid perfformiad mecanyddol oedd hwn ond yn hytrach perfformiad cerddorol tu hwnt. Nid wyf yn greadur emosiynol ond nid wyf ofn cyfaddef wrth ysgwyd llaw y perfformiwr ifanc ar ddiwedd

ei gamp, nad oeddwn dan deimlad mawr. Ar ôl iddo ymadael cefais wybod ei fod newydd ennill Cystadleuaeth Biano Ryngwladol Singapore yn erbyn llu o rai hŷn o lawer na fo. Yn sicr mae dyfodol disglair o'i flaen. Buan iawn wedyn y dychwelais o'r entrychion i glywed sawl un llai breintiedig yn rhygnu eu ffordd drwy weithiau y cyfansoddwyr mawr. Ond mae un fel 'na yn gwneud i'r haul dywynnu hyd yn oed yn y tywyllwch weithiau!!

Ar banel arholwyr cerdd y Coleg daw mwy na thri chwarter yr arholwyr o Loegr. Ychydig iawn sydd o Gymru a llai byth yn siarad Cymraeg yn rhugl heblaw Dr Lynn Davies a minnau. Felly braf yw cael gwahoddiad i arholi yn y Bala er enghraifft pan fyddaf yn arholi drwy'r Gymraeg ond yn llenwi'r adroddiadau yn Saesneg. Y mae'n syndod faint o Gymry sydd ym mhob gwlad yn enwedig yn Awstralia a Seland Newydd. Cofiaf yn dda bod yng nghymanfa ganu Cymry Seland Newydd yng Nghadeirlan Auckland a chael fy nghroesawu yno o'r pulpud - diolch i'r drefn ni ofynnwyd i mi godi ar fy nhraed o flaen torf mor

fawr. Hefyd, yr un adeg, braf oedd cyfarfod cymaint o Gymry Cymraeg Seland Newydd ac yn eu mysg Hefin Morgan o Fethesda.

Beth sydd ar y gorwel eleni tybed? Ar hyn o bryd mae hi braidd yn gynnar i'r Coleg anfon gwahoddiadau allan ond y mae'n siŵr y daw taith i rhywle cyn bo hir. Cefais wahoddiad i fod ar banel beirniadu Cystadleuaeth Biano Bangkok yn yr Hydref ond nid wyf yn sicr ar hyn o bryd beth fydd canlyniad hyn. Yn sicr yr wyf yn gobeithio cael mynd os bydd y trefniadau ar ôl y gystadleuaeth yn ffafriol-y mae'n siŵr y byddaf yn gorfod manteisio ar fod yn y rhan yna o'r byd wrth fynd i arholi naill a'i yng Ngwlad Thai neu yn Malaysia gan fy mod mor agos-cawn weld!

Peth arall sydd yn braf yw cael dau Wanwyn mewn blwyddyn pan yn ymweld ag Awstralia a Seland Newydd. Fel mae pethau yn mynd hefo'n tywydd sobr ni yma yng Nghymru mae yna rhyw obaith o gael rhyw fath o Wanwyn er nad yw hwnnw bob amser yn Waen Wen!

James Griffiths



CAB GWYNEDD

CANOLFAN CYNGHORI BANGOR, Ffordd Sackville, Bangor

Yr ydym wedi ehangu ein gwasanaeth yn yr ardal. Mae gwasanaeth ar gael:-

Dydd Llun a Dydd Iau
Gwasanaeth ffôn rhwng 10.00 y bore a 7.00 yr hwyr ar y rhif canlynol:-

0845 450 3064
0845 241 6670

Yn ychwanegol, ar yr ail a'r pedwerydd dydd Sadwrn bob mis byddwn yn agored heb angen gwneud apwyntiad ar gyfer yr asesiad cyntaf, rhwng 10.00 y bore a 12.30 y prynhawn.

HEFYD BOB DYDD – 08444 77 20 20 20

RHWNG 9.30 Y BORE A 4.30 Y PRYNHAWN – DYDD LLUN I DDYDD GWENER

Cyngor a Gwybodaeth am ddim ac yn gyfrinachol ar amrywiaeth o bynciau, yn cynnwys dyledion, budd-daliadau, materion cwsmer, materion tai a chyflogaeth.

Y LLANGOLLEN

BETHESDA
(01248 600491)


EGIN AR AGOR DYDD MAWRTH I DDYDD SUL 12-2
NOS FAWRTH I NOS SADWRN 5-8.30
(COGYDDDES NEWYDD YN Y GEGIN)

CINIO DYDD SUL AR GAEL
POB DYDD SUL 12yh -2yh
DEWIS O GIG A THATWS A LLYSIAU FFRES

CERDDORIAETH FYW
FFONIWCH, GWYLIWCH
AM BOSTERI NEU YMUNWCH Â'N
TUDALEN GWYNEBLYFR
AM FANYLION

OS YDYCH YN HOFFI EIN BWYD DYWEDWCH WRTH ERAILL
OS NAD YDYCH, DYWEDWCH WRTHYM NI.





Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch af ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Arolygiad Ysgol Dyffryn Ogwen Tachwedd 2012

Dydd Gwener, Chwefror 1af, cyhoeddwyd adroddiad yr arolygwyr Estyn ar Ysgol Dyffryn Ogwen.

Wrth arolygu defnyddir pedair gradd i ddisgrifio ysgolion – Rhagorol, Da, Digonol, ac Anfoddhaol – ac ar ôl bod yn yr ysgol am wythnos ddiwedd mis Tachwedd, daethant i'r canlyniad fod Ysgol Dyffryn Ogwen yn ysgol 'ragorol' a bod y rhagolygon gwella hefyd yn 'rhagorol'.

Ysgol Dyffryn Ogwen yw'r ysgol uwchradd gyntaf yng Ngogledd Cymru i gael ei dyfarnu'n 'rhagorol' ddwy waith o dan drefniadau arolygu newydd corff arolygu ysgolion Estyn a gychwynnwyd yn 2010.

Dyma baragraffau agoriadol yr adroddiad :

Mae Ysgol Dyffryn Ogwen yn ysgol rhagorol oherwydd:

- mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol ac yn cyflawni safonau uchel iawn;
- mae ethos gynhwysol arbennig yn sicrhau cyfle cyfartal a llwyddiant i bob disgybl;
- mae ansawdd yr addysgu yn rhagorol;
- mae pwyslais cyson ar ddatblygu sgiliau'r disgyblion;
- mae rheolaeth ac arweiniad yn effeithiol iawn.

Mae rhagolygon gwella yn rhagorol oherwydd:

- rheolaeth yr uwch dim rheoli a'r llywodraethwyr sydd yn pwysleisio cynnydd disgyblion fel prif waith yr ysgol;
- cydweithio effeithiol rhwng y staff, rheolwyr a llywodraethwyr;
- defnydd arloesol o dechnoleg gwybodaeth i hyrwyddo dysgu ac addysgu tu allan i oriau 'r ysgol.

Ceir canmoliaeth arbennig i safonau canlyniadau arholiadau allanol yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn 11, gan ddweud fod yr ysgol yn perfformio'n llawer gwell na'r disgwyl yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn canmol gwaith yr athrawon a chyfraniad y Corff Llywodraethol. Mae'r adroddiad yn dweud fod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio, bod ymddygiad y disgyblion yn dda iawn a'u bod yn gweithio'n frwdfrydig yn y gwersi.

Dywedir fod sgiliau dwyieithog y disgyblion yn ardderchog gyda'r disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus yn Gymraeg a Saesneg.

Mae ansawdd a chysondeb yr addysgu yn un o gryfderau'r ysgol, gyda hanner o'r addysgu yn rhagorol. Mae disgwyliadau'r athrawon a lefel her y tasgau yn uchel ac yn ymestyn pob disgybl yn llwyddiannus. Mae athrawon yn llwyddo i ennyn diddordeb yr holl ddisgyblion ac yn hybu safonau uchel.

Mae cysylltiadau'r ysgol gyda'r ysgolion cynradd yn cael eu canmol, a'r cydweithio effeithiol gyda rhieni.

Mae'r adroddiad yn nodi fod gan y llywodraethwyr ymwybyddiaeth drylwyr o berfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg a'u bod yn rhannu gweledigaeth y staff i gynnig yr addysg orau i ddisgyblion yr ardal.

Dywedir fod safonau rhagorol yr ysgol ac ansawdd yr addysgu yn golygu bod yr ysgol yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

Yn sgil yr adroddiad yma gwahoddwyd yr ysgol i gyfrannu dwy astudiaeth achos o arfer dda am waith yr ysgol. Bydd y rhain yn ymddangos ar safwe Estyn.

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion ac i'r staff wrth lwyddo i gael adroddiad mor ganmoliaethus. Mae'n adroddiad y gall yr ardal gyfan ymfalchïo ynddi.

Cofio'r Holocaust

Bu tri disgybl o flwyddyn 13 sef Dafydd Llŷr, Lois Jones a Mari Gwyn yn cynrychioli'r ysgol mewn gwasanaeth cyhoeddus a drefnwyd ym Mangor gan Gyngor Gwynedd, ddydd Gwener, Ionawr 25ain 2013, i gofio'r Holocaust. Bu Mari yn darllen yn y gwasanaeth. Cynhelir gwasanaethau ledled y byd ddiwedd Ionawr bob blwyddyn i gofio'r Holocaust, am mai dyma'r adeg o'r flwyddyn y rhyddhawyd Auschwitz gan fyddin Rwsia yn 1945. Mae'r ysgol hefyd yn cynnal gwasanaeth bob blwyddyn i gofio'r digwyddiad.

Sean Carson

Llongyfarchiadau mawr i Sean Carson o flwyddyn 11 am ddod yn bencampwr bocsiu Cymru am ei oedran a'i bwysau mewn cystadleuaeth yn Abertawe yn ddiweddar.

Ymweliad a Dominos Pizza



Ar fore dydd Mawrth 29ain o Ionawr cafodd grŵp Lletygarwch blwyddyn 10 y cyfle i ymweld â Dominos Pizza. Cafwyd bore difyr yn ymweld ar gegin, dilyn rheolau hylendid yn ogystal â pharatoi a choginio Pizza ei hunain. Roedd y disgyblion wedi mwynhau yn arw yn enwedig staff yr ysgol pan ddaethant yn ôl gyda Pizza anferth iddynt!

Ymweliad Prifysgol Abertawe



Yn ddiweddar cafwyd ymweliad blynyddol gan rai o staff Prifysgol Metropolitan Abertawe i'r Adran Dylunio a Thechnoleg yn yr ysgol. Mae gan yr adran gysylltiadau agos gyda'r brifysgol yma ac mae nifer o'n disgyblion wedi cael cynnig llefydd yno. Mae staff y brifysgol yn cynnal gweithdai gyda'n disgyblion 6ed dosbarth, ac yn cynnig cyngor ymarferol i unigolion. Mae'n arferiad hefyd inni wahodd disgyblion o ysgolion eraill i ymuno â ni.

Ysgol Rhiwlas

Ffrind newydd

Croeso mawr i'r adran Iau i Sunny Cowhig. Mae Sunny wedi ymuno â'r dosbarth ar ôl treulio tymor yng Nghanolfan Iaith Maesincla. Croeso nôl i'r ardal i'r teulu!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Adah a Mayah (a Mam a Dad!) ar enedigaeth Lilly Love. Rydym yn edrych mlaen yn fawr at ymweliad gan y fechan ac yn dymuno'n dda i'r teulu. Newyddion hyfryd wir.

Diwrnod y teigr

Beth yw'r sŵn mawr yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen tybed? Pam mae llond dosbarth o deigrod acw? Cafodd y plant bach wisgo i fyny fel teigrod am y diwrnod i gyd fynd a'u gwaith ar stori'r Teigr a ddaeth i de. Diolch i'r rhieni am eu brwdfrydedd a chymorth parod.

Croeso

Croeso mawr i Angharad Tomos, myfyrwraig flwyddyn gyntaf o Brifysgol Bangor. Mi fydd Angharad acw hefo plant y Cyfnod Sylfaen am 8 wythnos. Braff gweld dy fod wedi ymgartrefu mor gyflym Angharad!

Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Bu dosbarth yr adran Iau yng nghwmni Pêl droedwyr dinas Bangor am y diwrnod – am brofiad! Dysgant am effaith a phroblemau hiliaeth ym myd pêl droed ac yng nghymdeithas yn gyffredinol. Cafwyd drafodaethau aeddfed a thocynnau i fynd i weld dinas Bangor rhyw bnawn Sadwrn - diwrnod bythgofiadwy.

Eira



Llwyddodd y plant i greu Brenin Midas tra'n chwarae yn yr eira! Mae plant yr adran Iau yn dysgu am stori Midas felly cawsant gystadleuaeth i weld pa grwp oedd yn gallu adeiladu'r Midas gorau, tra bu'r plant ieuengaf yn edrych am hoel traed anifeiliaid – difyr oedd gweld pa anifeiliaid oedd wedi mentro ar gae'r ysgol liw nos!

Wythnos yr adar

Bu'r ysgol yn gwylio a chyfri'r adar i gyd fynd âg apêl blynddol yr RSPB. Mae'r plant wedi dysgu am adar ac yn gallu enwi nifer yn y Gymraeg. Bu'r plant bach wrthi'n brysur gyda moch coed, hadau a saim i ddenu'r adar a chafodd bob plentyn fynd a mochyn coed adra i'w ardd ei hun.

Dydd Santes Dwynwen

Am ddiwrnod prysur! Am leisiau swynol! Gweithiodd plant y ddwy adran mewn grwpiau i gyfansoddi cân yn seiliedig ar stori Dwynwen, creu gwaith Celf i gyd fynd â'r stori a chwarae offerynnau cyn mynd ymlaen i berfformio a recordio'u cân. Daeth y diwrnod i derfyn gyda disgo Santes Dwynwen a chyfle i gyfnewid eu cerdiau Santes Dwynwen.

Gwasanaeth

Diolch unwaith eto i Mr Andrew Setatree am ymweld â ni a chynnal gwasanaeth diddorol am gaethweisiaeth gan gyfeirio at Fasnach Deg a stori Joseff o'r Beibl.

Ysgol Abercaseg

Consuriwr

'Paid cyffwrdd – dwed!' oedd neges bwysig Marc y consuriwr pan ymwelodd â'r ysgol yn ddiweddar. Llwyddodd i ddysgu'r plant mewn ffordd hwyliog a doniol i beidio â chyffwrdd chwistrellau neu feddyginiaethau petaent yn dod ar eu traws!



Dyma Gruffydd yn helpu Marc i gael ei neges drosodd i weddill plant yr ysgol.

P.C.Dewi Thomas

Croesawyd P.C.Dewi Thomas i'r ysgol unwaith eto'n ddiweddar. 'Pobl sy'n ein helpu' oedd testun P.C.Thomas y tro hwn ac roedd y plant yn ymateb yn ddeallus iddo gan gynnig syniadau gwreiddiol a diddorol!



Dyma lun o rai o blant Blwyddyn 2 wedi eu gwisgo yn nillad yr heddlu! Plismyn y dyfodol efallai!

Nofio

Mae plant Blwyddyn 2 yr ysgol wedi cychwyn cael gwersi nofio eto eleni. Maent yn frwdfrydig iawn yn y pwll, yn nofio fel pysgod, ac yn ymwybodol o bwysigrwydd ymarfer er mwyn cadw'n iach.

Bore coffi

Cafwyd bore coffi llwyddiannus iawn yn Neuadd Ogwen yn ddiweddar. Diolch i Gyfeillion yr Ysgol am ei drefnu ac i bawb a'i gefnogodd! Diolch yn arbennig i'r holl fusnesau ym Methesda a thu hwnt am fod mor hael gyda gwobrau y 'Raffl Fawr'. Roedd y rhai a fu'n ddigon ffodus i ennill wedi gwirioni'n lân gyda'u gwobrau. Bydd yr elw a wnaethpwyd yn mynd tuag at brynu adnoddau i'r ysgol.

Ysgol Llanllechid

Diwrnod Santes Dwynwen

Bu pawb yn yr ysgol yn dathlu Dydd Santes Dwynwen. Daeth y plant i'r ysgol yn gwisgo dillad coch a threfnwyd disgo arbennig o dda ar eu cyfer gan aelodau'r Cyngor Ysgol a Mr Huw Edward Jones. Roeddent wedi bod yn brysur iawn yn addurno'r neuadd yn hyfryd ac yn paratoi diodydd i bob un o'r plant ac ar ddiwedd y dydd cafodd pawb gyfle i wneud cerdyn i'w gariad! Diolch i Mrs Rachel Morgan am roddi rhoddion o oleuadau disgo i'r ysgol.

Cyngerdd Leon

Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi Cyngerdd Ysgol Llanllechid a Chôr Rygbi Gogledd Cymru yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Cyngerdd oedd hwn i godi arian at Apêl Leon. Cewch fwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

Ms Evans a Ms Dianne

Dymunwn adferiad buan i Miss Dianne a fu'n derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gwellhad buan i chi Miss Dianne oddi wrth bawb yn yr ysgol. Rydym i gyd yn cofio atoch ac yn gobeithio eich gweld yn fuan. Mae'n braf iawn gweld Ms Elen Evans yn ôl yn yr ysgol wedi cyfnod o salwch. Croeso'n ôl Miss Evans!

PC Dewi Tomos



Cawsom ymweliad gan P.C. Dewi Tomos unwaith eto, - y tro hwn i addysgu plant i am beryglon meddyginiaethau 'pobol eraill'. Mae gan P.C.Tomos ffordd arbennig o gyflwyno'i neges pob amser, ac mae'r plant yn deall y geiriau 'Paid cyffwrdd - Dweud'

Cyflwyniad dramatig 'Hei Hogia Bach'

Daeth yr actorion Catrin Mara a Dyfrig Evans i'r ysgol gyda'r sioe 'Hei Hogia Bach', - sioe a drefnwyd gan y Gwasanaeth Llyfrgell. Cyflwyniadau ar ddetholiad o lyfrau oedd ganddynt i'r plant hŷn, yn ogystal a stori a chân i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. Roedd pawb wedi eu plesio. Perfformiadau gwerth chwell!

Techniquet

Bu Mr Gwilym Evans o gwmni Techniquet yn treulio diwrnod gyda Blynnyddoedd 5 a 6. Roedd offer gwyddonol a mathemategol gwyg ganddo ac roedd pawb wrth eu boddau'n cymryd rhan yn y gweithgareddau, gan ddysgu llawer drwy feddwl a datrys problemau.

Fforestydd Trofannol

Bu Blynnyddoedd 3 a 4 yn ffodus iawn o gael gweithdy diddorol gan Emyllt Davies, Swyddog Eco Ysgolion. Cafodd y disgyblion ddysgu am bwysigrwydd y Fforestydd Trofannol ac am yr holl greaduriaid sy'n byw yno.

Gwasanaeth

Diolch i'r Parchedig Jennifer Hood, y Ciwrad am ddod draw i'r ysgol unwaith eto i gynnal gwasanaeth boreol. Bu nifer o'r disgyblion yn ei chynorthwyo i drosglwyddo neges am bwysigrwydd bod yn ddiolchgar wrth y bobol sy'n ein helpu.

Bore Coffi Cylch Meithrin Llanllechid

Cynhaliwyd y Bore Coffi yn ddiweddar a chafwyd cefnogaeth dda gan y rhieni. Llawer o ddiolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi. Mwy o'r hanes tro nesaf!

Ysgol Llangygái

Sialens Rhigwm

Mae disgyblion Dosbarth Traed Bach ac Enfys yn brysur yn dysgu rhigymau fel rhan o weithgaredd noddedig Pori Drwy Stori gan Lywodraeth Cymru. Pwrpas y gweithgaredd yw codi ymwybyddiaeth rhieni a phlant o werth dysgu ar y cof a hefyd gwneud hyn drwy gael llawer iawn o hwyl.

Dathlu Diwrnod Cenedlaethol Posau

Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dathlu y diwrnod arbennig yma drwy chwarae a gweithio gyda phosau amrywiol ee. jig-sôs, croeseiriau, dot i ddot ac yn y blaen. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus a'r plant yn codi arian at yr ysgol yr un pryd.Diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth.

Cofio Dr Martin Luther King

Cofio am y dyn hynod yma wnaeth disgyblion yr Adran Iau ar Ionawr 21ain. Cawsant wasanaeth arbennig i'w gofio ac yna bwrw ymlaen i ddysgu mwy amdano yn ystod y dydd yn y dosbarthaidau drwy amrywiol dasgau.

Cofio Santes Cariadon Cymru

Cawsom wasanaeth lliwgar a bywiog iawn gan ddisgyblion Dosbarth Tirion yn ein hatgoffa o hanes Dwynwen a Maelon. Roedd gwrando ar gân Tŷ ar y Mynydd yn addas iawn o gofio'r geiriau 'bydd dy dad yn gwaredu'. Profiad emosiynol iawn oedd gwrando ar holl ddisgyblion yr ysgol yn canu 'Love can build a bridge' i gloi y gwasanaeth.

Gwersi canu

Mae Mr P Booth yn ymweld â'r ysgol yn wythnosol i gynnal sesiynnau canu - a hyn ar gyfer Côr y Gadeirlan ym Mangor. Diolch yn fawr iddo.

Dathlu Gwyl Ddewi

Bydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwahodd trigolion Llandygai a Thalybont i dathlu ar bnawn dydd Mawrth, Chwefror 26. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael a bydd y disgyblion yn perfformio caneuon traddodiadol a modern i ddiddanu'r gynulleidfa. Edrychwn ymlaen at groesawu'r gymuned i'r ysgol i fwynhau.

Eisteddfod yr Urdd

Rydym ar hyn o bryd yn ymarfer at Eisteddfod Gylch yr Urdd, fydd yn cael ei chynnal ddiwedd Chwefror. Mae'r disgyblion yn edrych ymlaen ac yn gweithio yn galed ym mhob ymarfer. Pob dymuniad da i bawb sy'n cystadlu.

Ysgol Pen-y-bryn

Cyngor Ysgol Pen-y-bryn Bethesda

Ar ddydd Llun, Ionawr 31ain, cawsom ein gwahodd i fynychu cyfarfod pwysig yng Nghaffi Coed-y-brenin gydag Amanda Davies o Gyngor Gwynedd, Cyngor Ysgol Dyffryn Ogwen a'r heddlu. Pwrpas y cyfarfod oedd i bawb cael dweud ei barn am ganol pentref Bethesda a rhannu ein syniadau gyda phawb. Pwrpas arall oedd adnabod y prif fanteision sydd yn codi pryder yn nhermau delwedd canol tref Bethesda, ac adnabod cyfleoedd i well delwedd canol tref.

Y peth cyntaf oedden ni'n ei wneud oedd rhannu ein hunain yn ddau grŵp. Yna fe aethom ar daith o amgylch Bethesda. Fe fuon ni'n rhestru'r gwendidau a'r cryfderau yng nghanol stryd Bethesda. Gwelwyd llawer o gryfderau yng nghanol stryd Bethesda megis Llys Dafydd wedi cael ei sefydlu ac yn cael ei ddefnyddio, rhai adeiladau wedi cael eu paentio yn hardd megis Tafarn y Bull, ymdrech dda i wneud lluniau yn rhai o ffenestri'r siopau, pobl yn trio cadw eu busnesau i fynd a llawer mwy. Gwelwyd rhywfaint o wendidau hefyd megis graffiti, ffenestri rhai siopau yn edrych yn fler a sbwriel wedi cael ei daflu ar y strydoedd.

Yn dilyn hyn fe aethom yn ôl i Gaffi Coed-y-brenin i gael cacen gri a phaned i gynhesu. Yna fe aethom ati wedyn i ddweud ein barn am sut y gallwn newid a gwella canol Bethesda. A dyma rai o'n syniadau: gwella a datblygu Parc Meurig, paentio mwy o adeiladau y stryd fawr, trio perswadio ymwelwyr i aros yma, trio gwella adnoddau Neuadd Ogwen a glanhau y stryd a'i gwneud yn ddeniadol i bobl Bethesda ac ymwelwyr.

Roedd Mrs Amanda Davies wedi gwirioni gyda'n syniadau ni a'n brwdfrydedd i wella'n hardal leol. Rydym yn edrych ymlaen at glywed ganddi ynglŷn â pha newidiadau sydd ar y gweill i Fethesda.

Gan Lowri Ford

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen
Nos Lun 11 Mawrth 2013
am 7.00 pm
YN FESTRI CAPEL JERUSALEM, BETHESDA

“Coleg y Werin”
Dylanwad a chyfraniad yr Ysgol Sul
Siaradwr: Hugh John Hughes

£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau



Dyddiadau'r Gaeaf
Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol
Yn Ystafell Fawr
Capel Jerusalem
(yn ymyl Spar)

2013
9 Mawrth

www.facebook.com/marchnad-cynnyrch-lleol-ogwen-local-produce-market

Canolfan Cefnfaes
BETHESDA
GYRFA CHWIST

Chwefror 26
Mawrth 12 a 26
am 7 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

**NEUADD OGWEN,
BETHESDA**

**BOREAU
COFFI**



16 Chwefror: NSPCC
23 Chwefror: Plaid Cymru
02 Mawrth: Ymchwil Canser
9 Mawrth: Eglwys Glanogwen
16 Mawrth: Neuadd Talgai

(Bob bore Sadwrn am 10.00 o'r gloch)

**CYMDEITHAS TALYBONT
A'R CYLCH**

**CYMANFA GANU
SUL Y BLODAU**

yng Nghapel Bethlehem,
Talybont

Nos Sul 24 Mawrth 2013
am 7.30 yr hwyr

Manylion llawn yn
rhifyn Mawrth y Llais

**CLWB CRICED A BOWLIO
BETHESDA**

Noson yng Nghwmni

CELT

Nos Wener 8 Mawrth 2013

Noson yw hon i godi arian i noddi
CARWYN EVANS a GETHIN
JEFFREYS i redeg Marathon Llundain
er mwyn cyfrannu tuag at yr
Ymddiriedolaeth Cystic Fibrosis er cof
am Gavin Bolton

**Plaid Cymru
Dyffryn Ogwen**

Cyfarfod Blynyddol yng
Nghanolfan Cefnfaes

Nos Wener 22 Chwefror
am 7.00 o'r gloch.

Dewch i wrando ar Leanne
Wood, Llywydd y Blaid am 7.30
Panad i ddilyn.

Côr Meibion Dinas Bangor

Mae'r côr yn hysbysebu am

ARWEINYDD

Am fwy o fanylion
cysyllter â'r Ysgrifennydd

Myfyr Parry
01286 676512

THEATR BARA CAWS

yn cyflwyno

HWYLIAU'N CODI

Actorion: Gwion Aled, Rhian Blythe,
Mirain Haf, Carwyn Llyr, Rhodri Sion
Cyfarwyddwr: Betsan Llwyd

Yn ôl a ni mewn amser i Gyfnod
Teyrnasiad yr hen Gwŷn Victoria, ac
ymunwch â John, Robert, Richard Davies
(a'i wraig Ann) - perchnogion cwmni
llongau llewyrchus o Fôn - ynghyd â llu o
gymeriadau isel ac amheus eraill!
'Roedd y cwmni'n gyfrifol am gludo
cannoedd o Gymry, glo a nwyddau o bob
math o Lerpwl a Llundain i bedwar ban
byd, ac yn dychwelyd gyda sawl cargo -
yn fwy penodol y giwano drewllyd o
ynysoedd anghysbell arfordir Gorllewin
De America.

Ond 'roedd ochr arall i'r geiniog. 'Roedd
y colledion ym mysy y llongau'n uchel,
sawl un ohonynt yn diflannu am byth, a
nifer o'r morwyr yn cael eu sgubo oddi ar
y dec neu'n syrthio o'r rigin mewn tywydd
enbyd.

**UN O GYNYRCHIADAU CYNTAF
CWMNI THEATR BARA CAWS
ERIOED!**

RIFIW GYMUNEDOL O'R HEN DEIP

Ar daith: Mawrth 5ed – Ebrill 6, 2013

Perfformiad yn **Neuadd Ysgol Dyffryn
Ogwen, Bethesda** ar nos Iau, 7 Mawrth
am 7.30.

Tocynnau gan Linda Brown (01248
601526 neu 01286 676335)

**DYDD GWEDDI BYD-EANG
Y CHWIORYDD**

Yn Festri Jerusalem

Dydd Gwener, 1 Mawrth
am 2 o'r gloch

Croeso i Bawb

**Hysbysebwr eich
gweithgareddau
yn y Llais
600853**


**EGLWYS UNEDIG BETHESDA
'LLENWI'R CWPAN'**

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

Chwaraeon

Pencampwr Cymru



Nos Sadwrn , 26 Ionawr fe goronwyd Sean Carson, 16 oed o Llwyn Bedw, Rachub yn bencampwr bocsio amatur Cymru yn y pwysau 80kg, wrth iddo drechu Dylan Cockran o Gaerdydd yn y rownd derfynol a gynhaliwyd yn Abertawe. Llwyddodd i orffen yr ornest yn y rownd gyntaf drwy daro ei wrthwynebydd i'r llawr. Mae Sean yn aelod o Glwb Bocsio Caernarfon, sydd wedi cynhyrchu pencampwyr eraill, David Florence, Tregarth, Ryan Owen a Daniel Elias yn 2012. Bydd yn mynd i Gaerdydd ym mis Mawrth i ymladd mewn gornestau yng nghystadleuaeth amatur agored Cymru. Llonfgyfarchiadau mawr i Sean a phob hwyl iddo yn y dyfodol.

CLWB CRICED A BOWLIO BETHESDA

Oes ar eich cymdeithas angen ystafell ar gyfer cyfarfod neu noson o adloniant?
Os oes, ffoniwch 600 833

Neu beth am ddod am gêm o Bingo 9.00 bob nos Sadwrn?

Croeso i chi ymuno â ni.

Bocsio Cic Tsieineaidd



Mae Dosbarth Wu Shu Kwan Tregarth, sy'n cael ei redeg gan Jake ac Elena Fitzpatrick, yn dal i roddi hyfforddiant ardderchog i'w myfyrwyr. Y ddau a enillodd y clod o fod yn fyfyrwyr gorau Dosbarth Tregarth oedd Gareth Williams a Thalia Lichdenstein. Fe'u gwelir yn rheng flaen y llun.

Yn sefyll y tu ôl i Thalia mae Gethin Huw Williams, y myfyriwr diweddaraf o Ddosbarth Tregarth, i gael y gwregys du yn Llundain gan y "Grandmaster" C. K. Chang.

Criced



Dyma lun newydd o Matthew Buchanan, Bryn Caseg, Bethesda,
Enillodd Matthew gap criced Cymru dan 11 yn ddiweddar.
Diolch i'w deulu am anfon y llun i'r Llais.
Maent yn ei longyfarch ac yn teimlo'n falch iawn ohono.
Pob hwyl Matthew!